# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10:00 y.b., DYDD LLUN, 14EG MEDI, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor**

**Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd , 8 Medi 2015)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (7)

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Annwen Hughes
W. Tudor Owen
Christopher Hughes
Ann Williams
Dwy sedd wag

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Angela Russell
Eryl Jones-Williams
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr

Llywarch Bowen Jones
Peter Read
I. Dilwyn Lloyd

## Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd Louise Hughes

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 1 - 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22ain Fehefin 2015 fel rhai cywir.

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL — 5 - 6

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol –

a) 12.6.15

## 6. FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI ARFAETHEDIG 2015 — 7 - 20

Cyflwyno adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i dderbyn cefnogaeth y pwyllgor ynghylch ffioedd trwyddedau tacsi o 1 Hydref 2015

## 7. ADOLYGU POLISÏAU CYNGOR GWYNEDD — 21 - 70

- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol
- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat
- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat

Cyflwyno adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i dderbyn cefnogaeth y pwyllgor ar gyfeiriad lefel uchel y newidiadau arfaethedig parthed i bolisïau trwyddedu tacsi

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 22.06.15

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr, Craig ab Iago, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams, Eryl Jones-Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ), Sheryl Le Bon (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

## 2. ETHOL IS GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn Gadeirydd am y cyfnod 2015 - 2016

## 3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones- Williams. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eddie Dogan, Llywarch Bowen Jones ac Ann Williams.

Croesawyd Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd i'r Pwyllgor. Nodwyd bod Gareth Jones wedi derbyn cyfrifoldeb dros dro dros yr adran Gwarchod y Cyhoedd yn sgil ymddeoliad Mr John Reynolds, Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd . Anfonwyd neges a ran y pwyllgor i ddiolch i Mr John Reynolds am ei wasanaeth a'i gefnogaeth dros y blynyddoedd i'r Pwyllgorau Trwyddedu.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 9fed o Fawrth 2015 fel rhai cywir.

## 7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 09.02.2015 a 12.05. 2015.

**8. DIWYGIO DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976: DEDDF DADREOLI 2015 DEDDF DADREOLI 2015**

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio i godi ymwybyddiaeth yr Aelodau i newidiadau o fewn Diwygio Deddf Llywodraeth Leol (darpariaethau amrywiol) 1976: Deddf Dadreoli 2015. Nodwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mawrth 2015 fydd o ganlyniad yn darparu ar gyfer tynnu neu leihau baich ar fusnesau, unigolion, cyrff sector cyhoeddus ac unigolion. Amlygwyd bod y Ddeddf Dadreoli 2015 yn ymdrin ag amrediad eang o 'fesurau sy'n effeithio ar fusnes: mannau penodol' sy'n cynnwys rhannau ynghylch Tacsis a Hurio Preifat, sydd drwy hynny yn effeithio ar Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

Tynnwyd sylw at y prif fesurau fydd yn effeithio ar ddarpariaethau Tacsis a Hurio Preifat Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 sef:

- A10 – Tacsis a cherbydau hurio preifat: hyd trwyddedau
- A11 – Cerbydau hurio preifat: is-gontractio

Ategwyd y bydd y newidiadau yn dod i rym 1.10.2015 ac yn debygol o greu effaith sylweddol ar drefniadau'r adran. Yn ychwanegol bydd y newid i hyd y drwydded yn effeithio ar y ffi a osodir ar gyfer y trwyddedau hyn. Bydd rhaid i'r ffioedd a godir fod wedi ei sefydlu ar gyfer tair blynedd, yn ffioedd rhesymol gyda'r prif fwriad o adennill costau rhedeg a gorfodi pob cynllun trwyddedu.

Amlygwyd bod gofyn i'r Cyngor ail-gyfrifo'r ffioedd am drwydded gyrrwr tair blynedd a thrwydded gweithredwr hurio preifat pum mlynedd. Gall y Cyngor ddiwygio ffi trwydded gyrrwr heb ymgynghori cyhoeddus; fodd bynnag, mae gosod ffi trwydded gweithredwyr hurio preifat yn destun trefn rhybudd cyhoeddus.

Eisoes mae trafodaethau gyda'r Adran Cyllid wedi dechrau i ail-gyfrifo'r strwythur ffioedd. Y bwriad yw cyflwyno y strwythur ffioedd newydd sydd yn cael ei gynnig, i gyfarfod arbennig o'r Pwyllgor hwn yn ystod yr wythnosau sydd i ddod. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y strwythur ffioedd newydd ynghylch trwyddedau gweithredwyr hurio preifat yn destun trefn rhybudd cyhoeddus. Wedi cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus, gellid cymeradwyo'r strwythur ffioedd yn ffurfiol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2015, i'w weithredu ar 1 Hydref 2015.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**9. POLISI AR DDERBYN TYSTYSGRIFAU DBS LEFEL UWCH A GYHOEDDWYD YN FLAENOROL I YMGEISWYR TRWYDDED GYRRWR CERBYD HACNI/CERBYD HURIO PREIFAT**

Cyflwynwyd er penderfyniad adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio. Nodwyd bod ymgeiswyr am 'Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfun' wedi'u heithrio o ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ac o Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiadau) 2002. Mae'n rhaid i ymgeiswyr

ddatgelu POB euogfarn, rhybudd a chosb benodedig. Yn unol ag a46 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref ac a51 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ni fydd y Cyngor yn cyhoeddi 'Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat' gyfun oni bai ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol' i ddal trwydded. Er hynny, ym mholisi cyfredol y Cyngor nid yw yn amlygu yn glir yn y nodiadau sut i ymgeisio am ddatgeliad.

Yn ychwanegol, cyfeiriwyd at Ddeddf yr Heddlu 1997, sydd yn nodi bod RHAID i'r dystysgrif cofnod troseddol uwch, wrth ystyried addasrwydd yr ymgeisydd i gael neu ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu drwydded gyrrwr hurio preifat, hefyd gynnwys gwybodaeth addasrwydd h.y. gwiriad rhestr gwahardd, yn ymwneud â phlant ac oedolion.

Nid yw'r ddogfen polisi presennol yn cyfeirio at dderbyn tystysgrifau lefel Uwch DBS a gyhoeddwyd yn flaenorol ac nid yw'n rhoi manylion ychwaith am ba hyd yr ystyrir bod y dystysgrif lefel Uwch DBS yn ddilys. O ystyried y gofynion cyfreithiol, gall yr arferiad o dderbyn tystysgrifau lefel uwch DBS a gyhoeddwyd yn flaenorol barhau AR YR AMOD bod y dystysgrif a gyhoeddwyd yn flaenorol yn Dystysgrif Lefel Uwch a'i bod yn cynnwys y gwiriad rhestr gwahardd plant a'r gwiriad rhestr gwahardd oedolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad yn unol ar argymhellion gan bwysleisio'r angen i sicrhau y bydd y rhestr gwahardd yn cael ei wirio.**

## 10. Y CYNLLUN DIRPRWYO YNGHYLCH PENDERFYNU AR GEISIADAU AM GERBYDAU HACNI/HURIO PREIFAT PAN NAD YW'R CERBYDAU'N CYDYMFFURFIO Â PHOLISI'R AWDURDOD

Cyflwynwyd er penderfyniad adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio gan dynnu sylw'r Aelodau at gefndir yr adroddiad. Nodwyd yng nghyfarfod 17 Medi 2012, penderfynodd y Pwyllgor ddirprwyo pwerau i Bennaeth yr Adran Rheoleiddio, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, i gymeradwyo penderfyniadau trwyddedu cerbydau tacsi ar gyfer cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod. Ar 8 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor y byddai aelod ychwanegol, sef y Cynghorydd Peter Read, yn cael ei gynnwys ar y 'panel penderfynu' er mwyn sicrhau cynrychiolaeth tair ardal (Arfon, Meirion, Dwyfor).

Yn ystod y cyfnod rhwng 17 Medi 2012 a 30 Ebrill 2015, adroddwyd bod cyfanswm o 73 o drwyddedau wedi'u rhoi ar gyfer cerbydau sy'n groes i bolisi cyfredol Cyngor Gwynedd ar Gerbydau Hacni. Nodwyd bod nifer y ceisiadau i drwyddedu cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi wedi cynyddu'n sylweddol ers gwnaed y penderfyniad i ddirprwyo penderfyniadau trwyddedu i'r Pennaeth Rheoleiddio mewn ymgynghoriad gyda'r 'panel penderfynu'.

Cydnabuwyd bod y broses ymgynghori yn un eithaf dwys gan fod nifer o ymgeiswyr yn awyddus i dderbyn penderfyniad ar eu cais cyn gynted â phosib. Nodwyd bod cwynion wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r Cyngor ynghylch yr oedi a'r ffordd y mae ceisiadau i drwyddedu cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi yn cael eu prosesu. Yng ngoleuni'r cwynion hyn, penderfynodd y Pennaeth Rheoleiddio

adolygu'r sefyllfa a chynnal trafodaethau gyda'r Adran Gyfreithiol i ofyn cyngor ynghylch y trefniant presennol o wneud penderfyniadau. Amlygwyd nad oedd dim newid i'r broses, ond bod angen eglurder ynglŷn â'r cyngor sydd yn cael ei gynnig i ymgeiswyr wrth wneud ymholiadau cychwynnol i gais. Ategwyd y bydd rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais ffurfiol. Nodwyd bod adolygu'r broses wedi bod yn ddefnyddiol ac o ganlyniad, disgwyliadau'r ymgeiswyr o'r sefyllfa yn cael ei reoli yn effeithiol.

Mewn ymateb gwnaed sylw bod yr oediad i benderfyniad fel arfer o ganlyniad i resymau penodol ac mai'r prif nôd yw gwneud y penderfyniad cywir i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Eglurodd y cyfreithiwr, mewn perthynas â pharagraff 3.4 o'r adroddiad, nad methiant aelodau'r "Panel Penderfynu" i ddod i benderfyniad ar gais am gyngor ar gerbyd arbennig fyddai yn eu heithrio rhag pleidleisio ar gais am drwydded mewn perthynas â'r cerbyd hwnnw mewn gwrandawiad o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, ond yn hytrach y ffaith eu bod wedi ymdrin â'r cais am gyngor yn y lle cyntaf.

Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Cynllunio a'r Amgylchedd, a'r Cyfreithiwr, y newidiadau canlynol i'r adroddiad: dileu paragraff 4.5; dileu paragraff 5.1 a mewnosod paragraff 5.1 newydd fel a ganlyn "Nodir yr adroddiad."; dileu paragraff 5.2 a mewnosod paragraff 5.2 newydd fel a ganlyn "Nodir y darperir cyngor cyn gwneud cais gan yr Uned Drwyddedu, ar sail ddiduedd, ar ganlyniad tebygol cais, cyn cyflwyno cais ffurfiol."

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad yn unol â'r argymhellion diwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 11.55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 12.06.15

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Hefyd yn Bresennol:** Cyng Dilwyn Morgan (cefnogi cais yr ymgeisydd),

## 1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol. Llongyfarchwyd Mr Heilyn Williams ar ei benodiad fel Maer Dolgellau.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sheryl Le Bon, Rheolwr Trwyddedu

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr Ac am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd. Eglurwyd bod datganiad o gollfarnau yn cyfeirio at drosedd perthnasol ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DAS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais. Cydnabuwyd bod y drosedd a ddatgelwyd wedi digwydd o fewn y tair blynedd diwethaf ac nad oedd unrhyw dystiolaeth o broblemau ers hynny. Tystiwyd bod yr ymgeisydd wedi gwneud dros 80 awr o wasanaeth cyhoeddus am ei drosedd. Ymhelaethwyd bod yr ymgeisydd wedi cael cynnig gwaith i drosglwyddo plant yn ystod tymor yr ysgol. Derbyniwyd cefnogaeth i'r cais ar lafar gan ei Aelod Lleol ac fe gydnabuwyd dau lythyr yn mynegi geirda i'r ymgeisydd gan Gynghorydd lleol arall a rhiant lleol.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gefnogwr o'r ystafell tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor bod yr ymgeisydd yn berson addas i gael trwydded yrru, a chaniatawyd y cais. Teimlai'r Is-bwyllgor i'r ymgeisydd gydnabod difrifoldeb y drosedd a'i fod yn edifarhau

**PENDERFYNWYD caniatáu cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r Uned Trwyddedu yn anfon llythyr i'r ymgeisydd yn cadarnhau penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben 11:30am

| AT: | AELODAU PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 14 MEDI 2015 |
| TEITL: | FFIOEDD TRWYDDEDAU TACSI ARFAETHEDIG 2015 |
| PWRPAS: | DERBYN CEFNOGAETH Y PWYLLGOR YNGHYLCH FFIOEDD TRWYDDEDAU TACSI O 1 HYDREF 2015 |
| AWDUR: | PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |

**1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL**

1.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu ei ffioedd mewn perthynas â Thrwyddedu tacsis (h.y. trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat, gweithredwyr hurio preifat a gyrwyr) yn rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol.

1.2 Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol. **Penderfynodd y Pwyllgor hwn ar 24 Mehefin 2013 fod yn rhaid i ffioedd Trwyddedu tacsi cael ei gynyddu i adennill costau'n llawn.**

1.3 Cynyddwyd ffioedd tacsi gan 25% yn 2013 a 19.78% yn 2014 er mwyn adennill y costau'n llawn.

**2.0 ASESIAD ARIANNOL & CYNNIG AR GYFER 2015-16**

2.1 Mae'r Adran Trysorydd wedi cyfrifo bod y swm y caniateir y Cyngor i adennill y gost o ddarparu'r swyddogaeth Trwyddedu tacsi ar gyfer 2015/15 yw £141,626.

2.2 Yn 2014/15 yr incwm o Drwyddedu tacsi oedd £127,848. Felly, mae diffyg incwm a ragwelir o £13,778 (£141,626 - £127,848) for 2015/16.

| | |
|---|---|
| Costau Gellir adennill | = £141,626 |
| Incwm | = <u>£127,848</u> |
| Diffyg Incwm | = £ 13,778 |

2.3 Er mwyn adennill y costau'n llawn rhaid felly cynyddu'r ffioedd o 10.78%.

2.4 Mae'r rhestr lawn o ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig ynghlwm i'r adroddiad hon. (Gwelir Atodiad A.) Nodwch, nid yw'r holl ffioedd yn destun ymgynghoriad statudol.

2.5 Hysbyswyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2015 y byddai strwythur ffioedd newydd yn ofynnol erbyn 1 Hydref 2015 o ganlyniad y Ddeddf Dadreoleiddio 2015 a dechreuad o drwyddedau 3 a 5 mlynedd.

**3.0 YMGYNGHORIAD**

3.1 Mae'r ffioedd arfaethedig wedi cael eu hymgynghori arnynt yn fewnol gyda'r Pennaeth Cyllid sy'n cefnogi cynyddu'r ffioedd er mwyn adennill costau yn llawn.

3.2 Rhoddwyd rhybudd cyhoeddus yn y wasg leol ar 20 Awst 2015 a rhoddwyd copi o'r rhybudd i'w wirio yn Siop Gwynedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn unol â gofynion statudol. (Gwelir Atodiad B.)

3.3 Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 17 Medi 2015.

3.4 Yn ychwanegol i'r gofynion statudol, rhoddwyd copi o'r ymgynghoriad ar wefan y Cyngor ac fe hysbyswyd y diwydiant tacsi o'r ymgynghoriad drwy lythyr ar 14 Awst 2015. Anfonwyd cyfanswm o 505 o lythyrau. Atgoffwyd y diwydiant fod cyfle iddynt roi sylwadau ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghoriad. (Gwelir Atodiad C.)

3.5 Hyd yma (07/09/15) mae'r Uned Trwyddedu wedi derbyn un llythyr yn gwrthwynebu'r ffioedd newydd. Mae'r ysgrifennydd yn gwrthwynebu'r cynnydd pellach yn ffioedd. (Gwelir Atodiad D.)

3.6 Yn seiliedig ar y nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol ynghylch Ffioedd Trwyddedau Tacsi, nid yw'r Uned Trwyddedu yn rhagweld y bydd yn cael llawer o ymatebion pellach i'r ymgynghoriad.

3.7 Mae Pennaeth Rheoleiddio wedi ystyried yr angen i adennill costau llawn am y gwasanaeth a'r gwrthwynebiad a dderbyniwyd. Os bydd unrhyw wrthwynebiadau ychwanegol yn cael eu derbyn cyn diwedd y cyfnod ymgynghori, byddent hefyd yn cael eu hystyried.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad i gynyddu'r Ffioedd Trwyddedau Tacsi i'r lefelau a ddangosir yn Atodiad A, er mwyn adennill costau'n llawn, cyn i'r Pennaeth Rheoleiddio eu hawdurdodi fel eu bod yn weithredol o'r 1 Hydref 2015

**Atodiad/Appendix A**

**FFIOEDD SY'N DESTUN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YN UNOL AG ADRAN 70 O DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976**
**FEES THAT ARE SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 70 OF THE LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976**

| FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI | TAXI LICENSING FEES | Ffi/Fee: 15-09-2014 | Cynnig/Proposal: 01-10-2015 |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Cerbyd Hacni** | **Hackney Carriage Vehicle Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |
| **Trwydded Cerbyd Hurio Preifat** | **Private Hire Vehicle Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £163.20 | £180.80 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **3 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | - | £238.70 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **5 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | - | £297.80 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion** | **Private Hire Operators Licence - School Transport** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £80.85 | £89.60 |
| **Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion** | **Private Hire Vehicle Licence - School Transport** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £80.85 | £89.60 |
| **Trwydded Hacni Ceffyl a Char** | **Horse Drawn Hackney Carriage Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |

**FFIOEDD SYDD DDIM YN DESTUN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**
**FEES THAT ARE NOT SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION**

| FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI | TAXI LICENSING FEES | Ffi/Fee: 15-09-2014 | Cynnig/Proposal: 01-10-2015 |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn) | Licence Fee (incl ID badge fee) | £122.77 | £136.00 |
| **Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence** | | **3 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn) | Licence Fee (incl ID badge fee) | - | £174.00 |
| **Gwiriad Gwasanaeth Datgelu & Gwahardd** | **Disclosure & Barring Service Check** | | |
| Ffi Statudol (Uwch gyda gwiriadau rhestr) | Statutory Fee (Enhanced with list checks) | £44.00 | £44.00 |
| Ffi Weinyddol | Administration Fee | £7.19 | £9.50 |
| **Platiau & Amrywiol** | **Plates & Miscellaneous** | | |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £31.44 | £34.80 |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate Bracket (Pair) | £31.44 | £34.80 |
| Plat Allanol Cerbyd (Yr un) | External Vehicle Plate (Each) | £16.47 | £18.25 |
| Plat Mewnol Cerbyd | Internal Vehicle Plate | £14.97 | £16.60 |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £4.49 | £5.00 |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire External Door Sticker (Each) | £16.47 | £18.25 |
| Bathodyn Gyrrwr | Driver ID Badge | £13.48 | £14.90 |
| Ail-eistedd Prawf Gwybodaeth Gyrrwr | Driver Knowledge Test Re-sit | - | £9.50 |
| Ffi Trosglwyddo trwydded CH i Berchennog newydd | Transfer of HC Licence to new Proprietor | £67.38 | £74.60 |
| Ffi Trosglwyddo trwydded HP i Perchennog newydd | Transfer of PH Licence to new Proprietor | £67.38 | £74.60 |

**Atodiad/Appendix B**



## CYNGOR GWYNEDD

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 FFIOEDD DIWYGIEDIG AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYDAU HACNI, CHERBYDAU HURIO PREIFAT A GWEITHREDWYR HURIO PREIFAT 2015/16

Hysbysir drwy hyn, yn unol ag adran 70, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu diwygio ffioedd trwyddedau cerbydau hacni, cerbydau hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat fel a ganlyn:

| | **Ffi** | **Hyd** |
|---|---|---|
| Trwydded Cerbyd (Hacni & Hurio Preifat) | £152.60 | 1 blwyddyn |
| Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat | £180.80 | 1 blwyddyn |
| | £238.70 | 3 mlynedd |
| | £297.80 | 5 mlynedd |

Gellir archwilio copi o'r hysbysiad am ddim am gyfnod o 28 niwrnod wedi cyhoeddi'r hysbysiad hwn yn -

Siop Gwynedd**,** Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

Siop Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL402YB

Gellir cyflwyno unrhyw sylwadau i'r diwygiadau a nodir uchod yn ysgrifenedig a'i anfon o fewn y 28 niwrnod o ddyddiad y rhybudd hwn at Trwyddedu@Gwynedd.gov.uk neu **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.**

Yn ddarostyngedig i ystyriaeth o unrhyw sylwadau a dderbynnir o fewn 28 o ddyddiad y rhybudd hwn, bwriedir gweithredu ar y newidiadau uchod ar 1 Hydref 2015.

Dyddiedig: 19/08/2015
Dafydd W Williams, Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio
Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

## GWYNEDD COUNCIL

## LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976 REVISED LICENCE FEES FOR HACKNEY CARRIAGE VEHICLES, PRIVATE HIRE VEHICLES AND PRIVATE HIRE OPERATOR'S 2015/16

Notice is hereby given, pursuant to section 70, Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976, that Gwynedd Council proposes to amend the fees for hackney carriage vehicle, private hire vehicle and private hire operator licences as follows:

| | **Fee** | **Duration** |
|---|---|---|
| Vehicle Licence (Hackney Carriage & Private Hire) | £152.60 | 1 year |
| Private Hire Operator's Licence | £180.80 | 1 year |
| | £238.70 | 3 years |
| | £297.80 | 5 years |

A copy of this notice may be inspected free of charge, for a period of 28 days from the publication of this notice at -

Siop Gwynedd, Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

Siop Gwynedd, Council Offices, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

Siop Gwynedd, Council Offices, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB

Any comments on the amendments specified above can be made in writing and sent within 28 days of this notice to Licensing@Gwynedd.gov.uk or **Public Protection Service, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**.

Subject to consideration of any comments received within 28 days of this notice, it is proposed that the above changes will be implemented on 1 October 2015.

Dated: 19/08/2015
Dafydd W Williams, Head of Regulatory Services
Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

**Adran Rheoleiddio / Regulatory Department**
**Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd**
**Planning, Environment and Public Protection Service**
Uwch Reolwr/Senior Manager – Gareth Jones

Gofynnwch am/Ask for: Sheryl Le Bon Jones
☎(01766) 771 000
Trwyddedu@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: **97404/SLB**
Eich Cyf / Your Ref:

14/08/2015

Annwyl Syr/Madam

**DIWYGIO FFIOEDD TRWYDDEDAU TACSI**

Hoffwn eich hysbysu bod y Cyngor yn bwriadu i ddiwygio ffioedd mewn perthynas â thrwyddedau tacsi o 1 Hydref 2015.

Mae Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn darparu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol. Penderfynodd Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol y Cyngor ar 24 Mehefin 2013 y byddai ffioedd tacsi yn cael eu hadolygu yn flynyddol ac yn cael eu gosod ar lefel ddigonol i adennill y costau rhesymol.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r costau ac wedi penderfynu fod lefel y ffioedd presennol yn annigonol i adennill y gost o ddarparu'r gwasanaeth trwyddedu tacsi ar gyfer 2015/16.

Er mwyn adennill y costau, bwriedir cynyddu'r ffioedd tua 10.78% o 1 Hydref 2015.

Mae'r rhestr lawn o ffioedd cyfredol a'r ffioedd arfaethedig ynghlwm i'r llythyr hon. Nodwch, mae diwygio rhai ffioedd yn destun ymgynghoriad statudol. Fydd yr ymgynghoriad statudol yn cychwyn drwy gyhoeddi Rhybudd Cyhoeddus yn bapurau lleol ar **20 Awst 2015**.

Dear Sir/Madam

**TAXI LICENSING FEE AMENDMENT**

I wish to inform you that the Council proposes to amend the fees in respect of taxi licensing from 1 October 2015.

Sections 53 and 70 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976 provide that fees may be charged at a level sufficient to recover reasonable costs. The Council's General Licensing Committee decided on 24 June 2013 that taxi licensing fees would be reviewed annually and be set at a level sufficient to recover the reasonable costs.

The Council has undertaken its annual review of costs and determined that the current fee levels are insufficient to recover the costs of providing the taxi licensing service for 2015/16.

To achieve cost recovery, it is proposed that the fees will increase by approximately 10.78% from 1 October 2015.

The full list of current and proposed fees is attached to this letter. Please note, the varying of certain fees is subject to statutory consultation. The statutory consultation will begin with the publication of a Public Notice in local newspapers on **20 August 2015.**

[Type a quote from the document or the summary of an interesting point. You can position the text box anywhere in the document. Use the Drawing Tools tab to change the formatting of the pull quote text box.]

Swyddfa'r Cygnor
fon
d. LL55 1SH
71000
ynedd.gov.uk

Bydd copi o’r rhybudd ar gael i’w archwilio am ddim yn Siop Gwynedd Caernarfon, Siop Gwynedd Pwllheli a Siop Gwynedd Dolgellau am gyfnod o 28 niwrnod o 20 Awst 2015 ymlaen.

Dylai unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig cael eu gwneud yn ysgrifenedig a’i anfon o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi’r rhybudd i’r cyfeiriad isod neu at Trwyddedu@Gwynedd.gov.uk .

Os oes gennych unrhyw gwestiwn parthed cynnwys y llythyr hwn cysylltwch â Trwyddedu@Gwynedd.gov.uk .

A copy of the notice will be available for inspection free of charge at Siop Gwynedd Caernarfon, Siop Gwynedd Pwllheli and Siop Gwynedd Dolgellau for a period of 28 days starting on 20 August 2015.

Any comments on the proposed amendments must be made in writing and sent within 28 days of the publication date of the notice to the address shown below or to Licensing@Gwynedd.gov.uk .

If you have any queries regarding the contents of this letter please contact us at Licensing@Gwynedd.gov.uk .

Yr eiddoch yn gywir/Yours faithfully



Sheryl Le Bon Jones
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd/Public Protection Manager

Amg/Enc

**FFIOEDD SY'N DESTUN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YN UNOL AG ADRAN 70 O DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976**
**FEES THAT ARE SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION IN ACCORDANCE WITH SECTION 70 OF THE LOCAL GOVERNMENT (MISCELLANEOUS PROVISIONS) ACT 1976**

| FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI | TAXI LICENSING FEES | Ffi/Fee: 15-09-2014 | Cynnig/Proposal: 01-10-2015 |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Cerbyd Hacni** | **Hackney Carriage Vehicle Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |
| **Trwydded Cerbyd Hurio Preifat** | **Private Hire Vehicle Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £163.20 | £180.80 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **3 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | - | £238.70 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat** | **Private Hire Operators Licence** | | **5 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | - | £297.80 |
| **Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion** | **Private Hire Operators Licence - School Transport** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £80.85 | £89.60 |
| **Trwydded Cerbyd Hurio Preifat - Cludiant Ysgolion** | **Private Hire Vehicle Licence - School Transport** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £80.85 | £89.60 |
| **Trwydded Hacni Ceffyl a Char** | **Horse Drawn Hackney Carriage Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded | Licence Fee | £137.75 | £152.60 |

**FFIOEDD SYDD DDIM YN DESTUN I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS**
**FEES THAT ARE NOT SUBJECT TO PUBLIC CONSULTATION**

| FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI | TAXI LICENSING FEES | Ffi/Fee: 15-09-2014 | Cynnig/Proposal: 01-10-2015 |
|---|---|---|---|
| **Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence** | | **1 blwyddyn/year** |
| Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn) | Licence Fee (incl ID badge fee) | £122.77 | £136.00 |
| **Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat** | **Hackney Carriage and Private Hire Drivers Licence** | | **3 mlynedd/years** |
| Ffi Trwydded (cynnwys bathodyn) | Licence Fee (incl ID badge fee) | - | £174.00 |
| | | | |
| **Gwiriad Gwasanaeth Datgelu & Gwahardd** | **Disclosure & Barring Service Check** | | |
| Ffi Statudol (Uwch gyda gwiriadau rhestr) | Statutory Fee (Enhanced with list checks) | £44.00 | £44.00 |
| Ffi Weinyddol | Administration Fee | £7.19 | £9.50 |
| | | | |
| **Platiau & Amrywiol** | **Plates & Miscellaneous** | | |
| Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate (Pair) | £31.44 | £34.80 |
| Braced Plat Trwydded Cerbyd (Par) | Vehicle Licence Plate Bracket (Pair) | £31.44 | £34.80 |
| Plat Allanol Cerbyd (Yr un) | External Vehicle Plate (Each) | £16.47 | £18.25 |
| Plat Mewnol Cerbyd | Internal Vehicle Plate | £14.97 | £16.60 |
| Llawes Plat Mewnol | Internal Plate Sleeve | £4.49 | £5.00 |
| Sticer Drws Cerbyd Hurio Preifat (Yr un) | Private Hire External Door Sticker (Each) | £16.47 | £18.25 |
| Bathodyn Gyrrwr | Driver ID Badge | £13.48 | £14.90 |
| Ail-eistedd Prawf Gwybodaeth Gyrrwr | Driver Knowledge Test Re-sit | - | £9.50 |
| Ffi Trosglwyddo trwydded CH i Berchennog newydd | Transfer of HC Licence to new Proprietor | £67.38 | £74.60 |
| Ffi Trosglwyddo trwydded HP i Perchennog newydd | Transfer of PH Licence to new Proprietor | £67.38 | £74.60 |

**Atodiad/Appendix D**

15 Y Grugan
Y Groeslon
Caernarfon
Gwynedd
LL54 7TA
25/08/2015

Sheryl Le Bon Jones
Public protection Manager
Gwynedd Council
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Dear Ms Le Bon Jones

With reference to your recent circular in relation to reviewing Licence fees for drivers and operators. I would like to object to the level of those price rises yet again this year.

Gwynedd Taxi Driving Permit and operator fees have increased by a staggering amount since 2012

| | |
|---|---|
| 2011 | £59 |
| 2012 + 35% | £80 |
| 2013 + 28% | £102.50 |
| 2014 + 20% | £122.77 |
| 2015 + 10% | £136 |

**A percentage rise in four years of 130%**

You claim in your circular that Gwynedd Council have undertaken a further review of the costs associated with the licensing of hackney and private hire vehicles. Under the Freedom of Information Act I would request that I receive a copy of that review. How is it during a financial climate of very low inflation and deflation, during that period Gwynedd Council claim that their Licensing costs have increased by 10.78% over the last year?

As a fee paying taxi operator I believe that I am not getting value for money from the Council, there is NO SUPPORT and as I have said many times, Gwynedd Council and its Officers and the Licensing Committee have no idea what is going on within the taxi industry.

I look forward to your reply in due course.

Yours Faithfully

*John Pritchard*

John Pritchard

# Eitem 7

| PWYLLGOR: | PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL |
|---|---|
| DYDDIAD: | 14 MEDI 2015 |
| TEITL: | **ADOLYGU POLISIAU CYNGOR GWYNEDD**<br>- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol<br>- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat<br>- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat |
| PWRPAS: | DERBYN CEFNOGAETH Y PWYLLGOR AR GYFEIRIAD LEFEL UCHEL Y NEWIDIADAU ARFAETHEDIG PARTHED I BOLISÏAU TRWYDDEDU TACSI |
| AWDUR: | PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO |

**1.0 GWYBODAETH CEFNDIROL**

1.1 Cymeradwywyd y polisïau cyfredol parthed gyrwyr, cerbydau a gweithredwyr gan y Pwyllgor hwn ar 22 Hydref 2010 ac daeth yn weithredol o 1 Rhagfyr 2010. (Gwelir copi o'r polisïau cyfredol yn Atodiad A i C.)

1.2 Ers 2010 mae'r polisïau wedi eu haddasu fel a ganlyn:-

- Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol - adolygwyd y polisi 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' ar 10/03/2014.
- Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat - adolygwyd y polisi yn 2014 i wahardd y gallu i drosglwyddo trwydded o un cerbyd i gerbyd arall.
- Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat – dim addasiadau hyd yma.

1.3 Penderfynodd y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin 2015 bod angen diweddaru ac adolygu'r polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud a Thrwyddedau Tacsi yn dilyn y cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau sydd ddim yn cwrdd â'r polisi ac yn dilyn y Ddeddf Dadreoleiddio 2015 a'r mesurau sy'n cael effaith ar y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**2.0 CYNNIG AM 'POLISI TRWYDDEDU TAXI' UNEDIG**

2.1 Cynigir bod 'Polisi Trwyddedu Tacsi Cyngor Gwynedd' unedig newydd yn cael ei greu yn lle'r tair dogfen polisi ar wahân. Gallai'r polisi unedig gynnwys yr holl bolisïau a gweithdrefnau'r Cyngor o ran Trwyddedu mewn un ddogfen tacsi; gallai hyn gynnwys polisïau ar euogfarnau, bennu prawf 'addas a phriodol', amodau trwydded a safonau cerbydau.

2.2 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol, yn ei 'Taxi and PHV Licensing - Councillor's Handbook' dyddiedig Mawrth 2015 yn annog yn gryf i awdurdodau Trwyddedu i greu polisi unedig sy'n dod a'r holl bolisïau a'u gweithdrefnau mewn un lle.

2.3 Bydd creu polisi unedig sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd yn rhoi eglurder i yrwyr a gweithredwyr, yn ogystal â chryfhau sefyllfa'r cyngor petai her yn erbyn penderfyniad yn y llys.

## 3.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG LEFEL UCHEL I'R POLISÏAU AC AMODAU – GYRWYR

3.1 Ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau dadleuol i ofynion polisi presennol neu amodau ynghyn Gyrwyr.

3.2 Cynigir bod y polisïau ac amodau'r Polisi Trwyddedu Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol yn cael ei hailysgrifennu a'i ddiweddaru i adlewyrchu canllawiau arfer gorau diweddaraf a'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn ogystal ag adlewyrchu egwyddorion Ffordd Gwynedd.

## 4.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG LEFEL UCHEL I'R POLISÏAU AC AMODAU - CERBYDAU

4.1 Cynigir y dylid newid y Polisi Trwyddedu Cerbydau Hacni/Hurio Preifat i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth a newidiadau mewn galw gan y diwydiant trwyddedu mewn perthynas â manyleb cerbydau. Ar hyn o bryd, oherwydd natur y polisïau presennol, mae'r ffordd mae ceisiadau trwyddedu tacsis yn amrywio ar draws y Sir, gan ddibynnu ar yr ardal y mae'r cais yn ymwneud a. Yr ardaloedd a chyfeirir atynt yn gyffredinol fel parthau yw Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

4.2 Cynigir bod y polisi unedig yn ailystyried statws perchnogion gyda 'Hawliau Taid', bod yn uno'r cyfyngiadau oedran pob cerbyd yn yr holl barthau (ardaloedd) ac yn ailystyried gofyniad hygyrchedd i gadeiriau olwyn. Bydd hyn yn sicrhau gwasanaeth cyson a theg ar draws y sir i geisio cwrdd ag anghenion y diwydiant a defnyddwyr a bydd yn helpu i gyflawni amcanion allweddol Ffordd Gwynedd.

4.3 **'Hawliau Taid'** - Cafodd 'Hawliau Taid' ei greu yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar 21 Medi 2005 i gael gwared ar y cyfyngiad yn y nifer o drwyddedau Cerbydau Hacni yn ardal Arfon o 1 Ebrill 2006 ymlaen. Cyn hyn roedd y nifer o drwyddedau Cerbydau Hacni yn Arfon wedi ei gyfyngu i 98 ac roedd angen i bob cerbyd trwyddedig i fod llai na 10 mlwydd oed.

a. Cymeradwywyd polisi Trwyddedu newydd ar y pryd oedd yn gwahaniaethu rhwng 'Hen Blatiau & Trwyddedau Hacni' (a gyhoeddwyd cyn 1 Ebrill 2006) a 'Platiau & Trwyddedau Hacni Newydd' (a gyhoeddwyd ar ôl 1 Ebrill 2006). O 1 Ebrill 2006 ymlaen rhoddwyd 'Trwydded Newydd' i gerbyd a oedd llai na 3 oed sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

b. Rhoddwyd 'Hawliau Taid' i berchnogion 'Hen Blatiau & Trwyddedau Hacni' o gael ei gyhoeddi ar gerbydau o ddewis y perchennog. Fodd bynnag, petai berchennog 'Hen drwydded' yn penderfynu prynu cerbyd sy'n hygyrch i gadair olwyn yna byddai'r 'Hawliau Taid' yn cael ei golli a byd y drwydded yn cael ei ystyried fel un 'Newydd' a bydd yn ddarostyngedig i'r amodau ychwanegol parthed cerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

c. Yn Orffennaf 2014 derbyniodd yr Uned Drwyddedu cyngor cyfreithiol yn datgan ei bod ddim yn bosibl i drosglwyddo trwydded cerbyd o un cerbyd i un arall. Felly, petai berchennog cerbyd angen diweddaru ei gerbyd o ganlyniad i ddamwain neu i uwchraddio'r cerbydau yn ei fflyd yna mae gofyn iddynt ildio'r hen drwydded a phrynu 'Trwydded Newydd' ar gyfer y cerbyd newydd.

d. Mae'r newid yma yn y weithdrefn wedi golygu bod perchnogion wedi colli eu 'Hawliau Taid' wrth iddynt ildio'r 'Hen drwydded'; mae hyn yn golygu costau uwch i'r diwydiant a fwy o lwyth gwaith i'r Uned Trwyddedu i brosesu ceisiadau am 'Trwyddedau Newydd' sydd yn groes i bolisi.

4.4 Yn ystod y cyfnod 17 Medi 2012 hyd 30 Ebrill 2015 rhoddwyd cyfanswm o 73 'Trwydded Newydd' yn groes i'r polisi i gerbydau oedd ddim yn cwrdd â'r gofynion mewn un ffordd neu arall.

4.5 Mae felly yn amlwg nad yw'r gofynion cerbyd a nodir yn y polisi presennol yn adlewyrchu gofynion y diwydiant a bod 'Hawliau Taid' deilydd trwydded ddim mwyach yn cael effaith ar ganlyniad y penderfyniadau Trwyddedu.

4.6 **Cynnig 1:** Cynigir bod statws 'Hawliau Taid' perchnogion cerbydau hacni Arfon yn cael ei dynnu o'r polisi a bod holl berchnogion cerbydau hacni yn ddarostyngedig i'r un amodau a gofynion cerbyd. Cynigir hefyd bod y gofynion ar gyfer holl gerbydau ym mhob parth yn cael eu huno er mwyn creu polisi mwy tryloyw a perthnasol i holl berchnogion ar draws y sir.

4.7 **'Manyleb Oedran Cerbyd' -** cynigir bod y fanyleb cerbyd pob cerbyd yn yr holl barthau fod yr un fath ar draws y sir.

**Cynnig 2:** Ym mhob parth, rhaid cais i drwyddedu cerbyd am y tro cyntaf fel Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 6 mlwydd oed ar y dyddiad pan fydd y cais cyflawn wedi ei dderbyn gan yr Awdurdod Trwyddedu.

**Cynnig 3**: Ym mhob parth, rhaid cais i adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat fod mewn perthynas â cherbyd sy'n llai na 12 mlwydd oed ar y dyddiad pan ddaw'r drwydded gyfredol i ben.

**Cynnig 4**: Bydd Cyngor Gwynedd yn caniatáu adnewyddu trwydded Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat y tu hwnt i'r terfyn oedran uchaf o 12 mlynedd os gellir dangos bod y cerbyd mewn 'cyflwr eithriadol'.

4.8 **'Mynediad Cadair Olwyn'** - yn Ebrill 2015 roedd 258 o gerbydau hacni wedi ei drwyddedu yng Ngwynedd. Roedd 34 gyda mynediad cadair olwyn, h.y. 13%.

| **2015** | **DDIM mynediad cadair olwyn** | **Mynediad cadair olwyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| ARFON | 142 | 30 | 172 |
| DWYFOR | 69 | 2 | 71 |
| MEIRIONNYDD | 13 | 2 | 15 |
| **Cyfanswm** | **224** | **34** | **258** |

Yn Ebrill 2013, roedd 214 o gerbydau hacni wedi ei drwyddedu yng Ngwynedd. Roedd 27 gyda mynediad cadair olwyn, h.y. 13%.

| **2013** | **DDIM mynediad cadair olwyn** | **Mynediad cadair olwyn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| ARFON | 100 | 22 | 122 |
| DWYFOR | 68 | 3 | 71 |
| MEIRIONNYDD | 19 | 2 | 21 |
| **Cyfanswm** | **187** | **27** | **214** |

4.9 Yn unol ag ystadegau a gyhoeddwyd gan yr Adran Trafnidiaeth yn Awst 2015, mae'r canran o gerbydau hacni sydd â mynediad i gadair olwyn yn awdurdodau cyfagos fel a ganlyn:-
Conwy 35 o 134 cerbyd hacni gyda mynediad cadair olwyn, h.y. 26%
Ynys Môn 7 o 92 cerbyd hacni gyda mynediad cadair olwyn, h.y. 8%.

Mae'r ystadegau yn nodi bod y nifer o gerbydau hacni yng Nghymru sy'n hygyrch i gadaeiriau olwyn ar gyfartaledd yn 26%. Hefyd nid oes gan unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ofyniad bod pob un o'u fflyd yn hygyrch i gadaeiriau olwyn. Mae gan Conwy gofyniad bod rhan o fflyd perchnogion yn hygyrch i gadaeiriau olwyn fodd bynnag, tydi Ynys Môn ddim yn gosod gofyniad parthed cerbydau sy'n hygyrch i gadaeiriau olwyn.

4.10 Bydd y Cyngor yn ceision cynnal y gymhareb bresennol o 13% o cerbydau sy'n hygyrch i gadaeiriau olwyn.

4.11 **Cynnig 5:** Bydd yr holl berchnogion yn cael eu hannog i drwyddedu cymaint o gerbydau sy'n hygyrch i gadair olwyn y maent yn ystyried yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd Cyngor Gwynedd yn gosod gofyniad bod rhaid oeliaf 1 cerbyd hacni mewn fflyd o 7 cerbyd hacni fod yn gerbyd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Felly os yw maint y fflyd yn 14 cerbyd hacni byddai gofyn i o leiaf 2 o'r 14 cerbyd fod yn gerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn.

4.12 Rhagwelir bydd Cynigion 1 - 5 yn cael eu hystyried fel newidiadau dadleuol i'r polisi cyfredol ac amodau ynghyn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat gan rhai perchnogion neu ddefnyddwyr, yn enwedig yn ardal Arfon. Fodd bynnag, gwneir newidiadau hyn yn ysbryd 'Ffordd Gwynedd' a'r awydd i greu system drwyddedu decach i bawb a gwasanaeth Trwyddedu gwell ar gyfer holl berchnogion a'r defnyddwyr.

## 5.0 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG LEFEL UCHEL I'R POLISÏAU AC AMODAU – GWEITHREDWYR

5.1 Ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau dadleuol i ofynion polisi presennol neu amodau ynghyn Gweithredwyr Hurio Preifat.

5.2 Cynigir bod y polisïau ac amodau'r Polisi Trwyddedu Gweithredwyr Hurio Preifat yn cael ei hailysgrifennu a'i ddiweddaru i adlewyrchu canllawiau arfer gorau diweddaraf a'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn ogystal ag adlewyrchu egwyddorion Ffordd Gwynedd.

## 6.0 YMGYNGHORIAD

6.1 Bydd y polisi unedig diwygiedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y cyfnod ymgynghori ffurfiol yn 28 diwrnod.

6.2 Bydd yr awdurdod trwydded yn mynd ati i chwilio am farn y diwydiant a'r defnyddwyr.

6.3 Bydd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori yn cael eu hystyried yn llawn cyn i'r polisi gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor hwn.

6.4 Bwriedir hefyd i adrodd ar y newidiadau lefel uchel a gynigir y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad hwn mewn cyfarfod anffurfiol o'r Cabinet i ofyn am farn yr Aelodau Cabinet.

6.5 Bydd y fersiwn manwl llawn o Bolisi Trwyddedu Tacsi Cyngor Gwynedd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor hwn i'w gymeradwyo at ddibenion ymgynghori, cyn cychwyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol o 28 diwrnod.

**7.0 ARGYMHELLIAD**

7.1 Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Pennaeth Rheoleiddio i greu 'Polisi Trwyddedu Tacsi Cyngor Gwynedd' unedig yn lle'r tair dogfen polisi ar wahân.

7.2 Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cyfeiriad Cynigion 1 - 5 fel newidiadau lefel uchel i'w gynnwys yn y 'Polisi Trwyddedu Tacsi Cyngor Gwynedd' a fydd yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo at ddibenion ymgynghori.

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRAN RHEOLEIDDIO - GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

# PECYN GWYBODAETH TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI/ HURIO PREIFAT GYFUNOL

## MAE FERSIWN SAESNEG O'R PECYN YMGEISIO HWN AR GAEL

**MABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR - 22.10.2010.**
**DECHRAU - 1.12.2010.**

**CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT GYFUNOL A BATHODYN**

Amgaeir ffurflenni cais a nodiadau canllaw i’ch cynorthwyo i wneud cais i’r Cyngor. Os ydych angen unrhyw wybodaeth neu gyngor pellach ynghylch gwneud cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/ Hurio Preifat Gyfunol, cysylltwch â’r Tîm Trwyddedu:

| | | |
|---|---|---|
| Uned Trwyddedu (Arfon)<br>Cyngor Gwynedd<br>Stryd y Jêl<br>Caernarfon,<br>Gwynedd LL55 1SH<br>Rhif ffôn: 01286 679925 | Uned Trwyddedu (Dwyfor)<br>Cyngor Gwynedd<br>Ffordd y Cob,<br>Pwllheli,<br>Gwynedd LL53 5AA<br>01758 704000 | Uned Trwyddedu (Meirionnydd)<br>Cyngor Gwynedd<br>Penarlâg,<br>Dolgellau,<br>Gwynedd LL40 2YB.<br>01341 424326 |

Y Tîm Trwyddedu yw:

| | |
|---|---|
| Amlyn ab Iorwerth | Rheolwr Trwyddedu |
| Ceridwen Pritchard | Swyddog Trwyddedu (Arfon) |
| Gwenda Ann Roberts | Swyddog Trwyddedu (Dwyfor) |
| Heilyn Williams | Swyddog Trwyddedu (Meirionnydd) |
| Robert Taylor | Gorfodaeth Trwyddedu (Arfon). |
| Alwyn Thomas | Gorfodaeth Trwyddedu (Meirionnydd/Dwyfor) |

Mae’r wybodaeth a’r canllawiau a ganlyn wedi’i gynnwys yn y pecyn gwybodaeth hwn:

1. Canllawiau ynglŷn â pherthnasedd Euogfarnau
2. Cais am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol.
3. Tystysgrif Feddygol

(2)

4. Dau eirda (Enwau a Chyfeiriad)
5. Amodau Safonol y Drwydded
6. Nodiadau canllaw - gwneud cais am ddatguddiad

*Cyn cwblhau ffurflen gais, bydd yr ymgeisydd yn derbyn copi o'r rheolau a'r amodau i'w hastudio ac wedyn bydd yn rhaid sefyll yr arholiad a'i basio. Gwneir hyn er mwyn osgoi torri'r Rheolau a'r Amodau dyfodol gan y gallai hynny arwain at wahardd/ dileu'r drwydded.*

## CANLLAWIAU AR WEITHDREFNAU TRWYDDEDU

### PERTHNASEDD COLLFARNAU

Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei rinweddau'i hun.

Bydd unigolyn gyda chollfarn neu gollfarnau yn cael ei wahardd yn barhaol rhag cael trwydded, ond disgwylir i'r unigolyn fod heb unrhyw gollfarnau am rhwng 3 i 5 mlynedd, yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, cyn y gellir ystyried trwydded. Er bod gan y Cyngor yr hawl i ddewis, yr ystyriaeth bwysicaf yw gwarchod y cyhoedd ac mae unrhyw unigolyn sydd wedi cyflawni trosedd ac yn gorfod aros am flwyddyn neu ddwy cyn cael ei dderbyn fel gyrrwr yn fwy na thebyg yn mynd i werthfawrogi'r drwydded ac ymddwyn yn unol â hynny.

++++++++++++++++++++

Mae'r enghreifftiau a ganlyn yn rhoi **arweiniad cyffredinol** ynghylch yr hyn a wneir ble bo collfarnau neu rybuddion yr Heddlu wedi cael eu derbyn.

Ble sonnir am 'gais' yn y Canllawiau hyn, cyfeiria hyn yn ogystal at 'ailgyflwyno cais' ar ôl diddymu trwydded gyfredol neu adnewyddu trwydded.

### Troseddau Gyrru

- Ni ddylai euogfarnau am fân droseddau traffig, megis achosi rhwystr, torri cyfyngiadau aros ac ati, rwystro unigolyn rhag gwneud cais.

- Os yw ymgeisydd wedi casglu nifer digonol o bwyntiau cosb ynghynt, fyddai'n gofyn am gyfnod o waharddiad rhag gyrru, ond heb fod gofyn iddo gymryd prawf gyrru pellach, yna gellir caniatáu trwydded iddo ar ôl i'w drwydded yrru gael ei hadfer gyda rhybudd llym am y safonau uchel sy'n ddisgwyliedig gan yrwyr trwyddedig.

(3)

- Os yw trwydded yrru gyrrwr yn cael ei diddymu yn dilyn chwech neu ragor o bwyntiau cosb yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl pasio'r prawf gyrru, yna cyn y gellir ystyried ei gais am drwydded, rhaid i gyfnod o 12 mis fynd heibio heb gollfarnau pellach **ar ôl** pasio prawf gyrru ychwanegol.

- Os yw ymgeisydd wedi derbyn gorchymyn i ailymgeisio prawf gyrru yn dilyn cyfnod o waharddiad am drosedd arall sy'n denu pwyntiau cosb, yna dylai fod heb dderbyn collfarnau am chwe mis **ar ôl** pasio'r prawf gyrru cyn y gellir ystyried ei gais.

**TROSEDDAU GYRRU YN CYNNWYS GWAHARDDIAD**

- Ni ddylai euogfarn unigol am yrru heb y gofal a'r sylw dyladwy rwystro unigolyn rhag gwneud cais.
- Os bydd ymgeisydd wedi derbyn euogfarn am drosedd gyrru peryglus neu drosedd arall sy'n denu gwaharddiad gorfodol ac os yw wedi derbyn gorchymyn i gymryd prawf gyrru estynedig ar ddiwedd y cyfnod gwaharddiad hwnnw, yna rhaid i gyfnod o 12 mis o leiaf fynd heibio heb unrhyw euogfarn **ar ôl** pasio'r prawf gyrru, cyn y gellir ystyried ei gais.

**GYRRU HEB YSWIRIANT NEU YRRU DAN WAHARDDIAD**

- Gan fod gyrwyr trwyddedig yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd sy'n teithio yn eu cerbydau, ystyrir yn ddifrifol ym mhob achos euogfarnau am yrru heb yswiriant neu yrru dan waharddiad.
- Cyn y gellir ystyried ymgeisydd o'r fath, bydd yn rhaid iddo fod heb dderbyn euogfarnau o'r math hwn am o leiaf chwe mis.
- Os bydd ymgeisydd wedi'i wahardd rhag gyrru o ganlyniad i euogfarnau o'r math hwn, yna bydd y cyfnod chwe mis yn rhedeg o'r dyddiad yr adferwyd y drwydded.
- Os bydd yr ymgeisydd wedi derbyn mwy nag un euogfarn o'r math hwn o fewn y tair blynedd diwethaf, yna bydd yn rhaid i gyfnod o 12 mis fynd mynd heibio cyn y gellir ystyried ei gais.

**CEISIO HURIO ALLAN**

- Ystyrir hon yn drosedd difrifol gan y gall yswiriant y cerbyd gael ei annilysu pe ceid y gyrrwr yn euog gan Lys Ynadon o geisio hurio allan mewn cerbyd heblaw cerbyd hacni mewn ardal reoledig.

- Dylai cyfnod o leiaf chwe mis fynd heibio heb dderbyn euogfarnau cyn y gellir ystyried cais.
- Os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglŷn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig.

**METHU Â GWISGO BATHODYN ADNABOD**

- Ystyrir yn ddifrifol unrhyw berson gydag euogfarn gan Lys Ynadon am fethu â gwisgo bathodyn adnabod wrth weithredu fel gyrrwr trwyddedig.
- Ni fydd euogfarn unigol yn ddigon i rwystro cais rhag cael ei ystyried. Fodd bynnag, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglŷn ag ymddygiad disgwyliedig gyrrwr trwyddedig.
- Os bydd ymgeisydd wedi derbyn euogfarn gan Lys Ynadon am y drosedd hon fwy nag unwaith, yna bydd yn rhaid i gyfnod o dri mis fynd heibio heb euogfarn cyn y gellir ystyried cais.

**MEDDWDOD A THROSEDDAU CYSYLLTIEDIG ERAILL**

**i) GYDA CHERBYD MODUR**

- Ystyrir euogfarnau o yrru, neu fod yn gyfrifol am unrhyw gerbyd dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau, neu o beidio â rhoi sbesimen i'w brofi, yn ddifrifol iawn bob amser.
- Os bydd ymgeisydd wedi'i wahardd ac wedi derbyn gorchymyn i gymryd prawf gyrru estynedig neu brawf gyrru, yna rhaid i gyfnod o 12 mis fynd heibio heb unrhyw euogfarnau, **ar ôl** pasio'r prawf angenrheidiol, cyn y gellir ystyried cais.
- Os digwyddodd y drosedd o ganlyniad i'r unigolyn fod yn gyfrifol am gerbyd trwyddedig, neu yn gyrru cerbyd o'r fath, a bod y gyrrwr yn derbyn gorchymyn i gymryd prawf gyrru pellach, yna dylai cyfnod o ddwy flynedd heb euogfarnau fynd heibio ar ôl pasio'r prawf angenrheidiol, cyn y gellir ystyried cais.
- Os na dderbynnir gorchymyn i gymryd prawf gyrru, yna dylai cyfnod o 12 mis heb euogfarnau fynd heibio cyn y gellir ystyried cais.
- Os bydd gan ymgeisydd fwy na un euogfarn o'r math hwn, yna dylai bod amheuon cryf ynglŷn ag addasrwydd yr ymgeisydd i gael trwydded.
- Dylai o leiaf tair blynedd fynd heibio ar ôl adfer y drwydded yrru a phasio unrhyw brawf gyrru pellach cyn y gellir ystyried cais.
- Os bydd **unrhyw** awgrym bod yr ymgeisydd yn gaeth i alcohol neu'n defnyddio cyffuriau, dylid trefnu archwiliad meddygol arbennig gan feddyg wedi'i bennu gan y Cyngor.
- Rhaid i'r archwiliad meddygol fod yn foddhaol cyn y gellir ystyried cais.

- Os deallir bod yr ymgeisydd yn gaeth i alcohol neu'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, yna ni ellir ystyried unrhyw gais hyd nes y bydd pum mlynedd wedi mynd heibio ar ôl cwblhau unrhyw driniaeth.

**iii) DDIM MEWN CERBYD MODUR**

- Ni ddylai digwyddiad unigol am drosedd yn gysylltiedig ag alcohol atal ymgeisydd rhag cael trwydded.
- Gall nifer o euogfarnau am y math hon o drosedd ddangos bod problem feddygol sydd angen edrych arni ymhellach fel y nodir uchod.
- Mewn rhai achosion rhoddir rhybudd am y safonau disgwyliedig i yrwyr trwyddedig.

**iv) CYFFURIAU**

- Mae'n ofynnol i ymgeisydd gydag euogfarn am drosedd yn ymwneud â chyffuriau ddangos cyfnod o dair blynedd o leiaf heb euogfarnau cyn y gellir ystyried cais, neu o leiaf pum mlynedd ar ôl triniaeth dadwenwyno os oedd yr ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau.

**TROSEDDAU ANWEDDUSTRA**

- Dylid gwrthod trwydded i ymgeiswyr gydag euogfarn am ddinoethi anweddus, ymosodiad anweddus, llithio i bwrpas anfoesol, neu unrhyw drosedd o natur rywiol hyd nes bod cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd wedi mynd heibio heb iddo dderbyn euogfarn.
- Os oedd yn rhaid i'r ymgeisydd gofnodi ar Gofrestr Troseddwyr Rhyw Cenedlaethol o ganlyniad i'r drosedd, yna ni ddylid ystyried unrhyw gais tra bydd yr ymgeisydd ar y gofrestr.
- Ni chaiff ymgeisydd gyda mwy nag un euogfarn am y math hon o drosedd ei ystyried yn addas i'w drwyddedu hyd nes bydd o leiaf pum mlynedd wedi mynd heibio ar ôl yr euogfarn fwyaf diweddar.
- Os cafwyd y math hwn o euogfarn yn sgil yr unigolyn yn gweithio fel gyrrwr trwyddedig, yna ni ddylid ystyried unrhyw gais ganddo am o leiaf pum mlynedd ar ôl yr euogfarn, neu os yw'n hirach na hynny, ar ôl terfynu'r ddedfryd a roddwyd.
- Ym mhob achos, pe caniateir trwydded, yna bydd am gyfnod o chwe mis yn unig ac ar ôl hynny rhaid i'r unigolyn dderbyn gwiriad cofnod troseddol arall.
- Os na chafodd yr ymgeisydd euogfarnau eraill o fewn y cyfnod trwyddedig o chwe mis, nid ystyrir unrhyw gais pellach hyd nes y bydd cyfnod o bum mlynedd wedi mynd heibio heb iddo dderbyn euogfarnau.

**(6)**
**TRAIS**

- Ymdrinnir yn llym iawn ag ymgeiswyr gydag euogfarnau am niwed corfforol difrifol, clwyfo, ymosod neu unrhyw drosedd o natur dreisgar.
- Rhaid i ymgeisydd fod heb dderbyn euogfarnau am o leiaf tair blynedd cyn y gellir ystyried cais.
- Ym mhob achos, os caniateir trwydded, rhoddir rhybudd llym ynglŷn ag ymddygiad disgwyliedig gyrwyr trwyddedig.

**ANONESTRWYDD**

- Ystyrir yn ddifrifol unrhyw euogfarnau yn ymwneud ag anonestrwydd.
- Yn gyffredinol, dylai cyfnod o leiaf tair i bum mlynedd fynd heibio heb dderbyn euogfarnau cyn y gellir ystyried cais.

**RHYBUDDION YR HEDDLU**

- Ystyrir a rhoddir rhybudd yr Heddlu pan fo unigolyn yn dod i sylw'r heddlu am y tro cyntaf ac yn cyfaddef y drosedd.
- Ystyrir bod rhybudd yr Heddlu yn debyg i euogfarn fel pe bo'r unigolyn wedi'i euogfarnu mewn llys am drosedd gyffelyb o fewn pum mlynedd i dderbyn y rhybudd. Bryd hynny, gall y rhybudd gael ei gyfeirio at sylw'r Llys a bydd unrhyw gosb a roddir yn cael ei hystyried fel yr ail euogfarn ac felly gellir rhoi dedfryd.
- Yn gyffredinol, gall cais sy'n dangos rhybudd ei ystyried a'i gymeradwyo ond yr ystyriaeth bennaf yw gwarchod y cyhoedd.

**TROSEDDAU ERAILL**

- Ble bo Gorchymyn Rhwymo neu Orchymyn Atal wedi'i roddi gan lys, ni ellir ystyried unrhyw gais tra bydd y gorchymyn hwnnw'n gyfredol.
- Rhaid i gyfnod o leiaf chwe mis fynd heibio ar ôl i'r gorchymyn ddod i ben cyn y gellir ystyried cais.
- Yr ystyriaeth bennaf yw gwarchod y cyhoedd.

**Y CAIS**

Mae gofyn i chi gael y dogfennau a ganlyn i ategu’ch cais:

(7)

1. Ffurflen Gais wedi'i chwblhau - fel Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Cyfunol, rydych wedi eich eithrio o ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 ac o Orchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiadau) 2002 ac mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgelu POB euogfarn, Gorchymyn, ASBO, Cosb Benodedig.
2. Tystysgrif Feddygol wedi'i chwblhau gan eich Meddyg Teulu eich hun.
Mae angen tystysgrif feddygol i gwblhau eich cais, ond os ydych yn ansicr ynghylch a fydd trwydded yn cael ei rhoi i chi oherwydd euogfarnau blaenorol neu farciau ar eich trwydded yrru DVLA, gellwch oedi'r dystysgrif feddygol hyd nes bydd yr holl wiriadau wedi'u cwblhau a'r cais wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu.
Mae’r holl faterion sy’n ymwneud â’ch cais yn gyfrinachol ac ni thrafodir y materion hyn gydag unrhyw un ac eithrio’r rhai sy’n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesu eich cais.
3. Y ffi bresennol.
4. Trwydded Yrru'r DVLA llawn (sydd wedi bod gan yr ymgeisydd 12 mis cyn y cais)
5. Dau lun o faint pasbort.

DS: Rhaid gwneud apwyntiad gyda swyddog awdurdodedig y Tîm Trwyddedu fel y gellir cwblhau ffurflen ddatgelu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (Chwydd-ymchwil). Pan fyddwch yn mynychu'r cyfarfod hwn, rhaid i chi ddod â'ch trwydded DVLA, Pasbort, Tystysgrif Geni/Priodas ac unrhyw ddull arall o'ch adnabod - rhywbeth sy'n dangos eich cyfeiriad presennol e.e. bil cyfleuster.
Ni ellir prosesu unrhyw gais hyd nes y bydd y ffi briodol wedi’i derbyn.
Ar ôl derbyn ateb boddhaol i'r ffurflen CRB ac ar ôl derbyn yr holl ddogfennaeth angenrheidiol, caiff yr ymgeisydd ei Drwydded Gyrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol a'r Bathodyn.
Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Trwyddedu ystyried eich cais os bydd:
1. Gwrthwynebiadau i'r euogfarnau perthnasol sydd wedi darfod/ heb ddarfod
Mae angen tystysgrif feddygol i gwblhau eich cais, ond os ydych yn ansicr ynghylch a fydd trwydded yn cael ei rhoi i chi oherwydd euogfarnau blaenorol neu farciau ar eich trwydded yrru DVLA, gellwch oedi'r dystysgrif feddygol hyd nes bydd yr holl wiriadau wedi'u cwblhau a'r cais wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Trwyddedu.
Mae’r holl faterion sy’n ymwneud â’ch cais yn gyfrinachol ac ni thrafodir y materion hyn gydag unrhyw un ac eithrio’r rhai sy’n ymwneud yn uniongyrchol â phrosesu eich cais.
.

# CYNGOR GWYNEDD

# Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

## Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847

TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI/ HURIO PREIFAT GYFUNOL - AMODAU SAFONOL Y DRWYDDED

**RHAN A - STATWS CYFREITHIOL**

1. Gwnaed yr Amodau hyn yn unol ag Adran 51, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a'r holl bwerau galluogi eraill ac a gafodd eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd a nodir unrhyw ddiwygiadau dilynol ble bo'n briodol.
2. Gall torri un neu fwy o'r Amodau hyn arwain at wahardd, diddymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded, yn unol ag Adran 61 y Ddeddf hon.

**RHAN B - DEHONGLIAD**

1. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd y geiriau a ganlyn yn golygu'r hyn a nodir isod:-

**"y Ddeddf"** - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

**"y Cyngor"** - Cyngor Gwynedd.

**" y drwydded**" - Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol a roddir yn unol ag Adran 51 y Ddeddf.

**"y gyrrwr"** - deilydd y drwydded.

**"bathodyn adnabod y gyrrwr"** - y bathodyn a roddir gan y Cyngor i'r gyrrwr.

**"cerbyd hurio preifat"** - cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor dan Adran 48 y Ddeddf.

**"rhif trwydded y gyrrwr"** - y rhif a ddyrennir gan y Cyngor i drwydded a ganiateir i gerbyd hurio preifat a drwyddedir dan Adran 48 y Ddeddf neu i gerbyd hacni dan Adran 37, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847.

**"cerbyd hacni"** - cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan y Cyngor dan Adran 37 Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847

**"arhosfan cerbyd hacni"** - lle a ddynodir gan y Cyngor yn arhosfan cerbyd hacni.

**"plât cerbyd"** - y plât a ddarperir gan y Cyngor i'w osod ar gerbyd hurio preifat dan Adran 48(5) y Ddeddf ac ar gerbyd hacni dan Adran 38, Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847.

**"cerbyd trwyddedig"** - cerbyd a drwyddedir gan y Cyngor fel cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

2. Dehonglir fod cyfeiriad at genedl enw gwrywaidd yn cynnwys cyfeiriad at genedl enw benywaidd hefyd ble bo hynny'n briodol.

3. Bydd yr holl eiriau a brawddegau a ddefnyddir yn yr Amodau hyn yn golygu'r ystyr a roddir iddynt (os o gwbl) yn y Ddeddf.

**RHAN C - YR AMODAU**

**1.** Ni ellir trosglwyddo'r drwydded i unrhyw berson arall.

**2.** Ni chaniateir i'r gyrrwr gario teithwyr am dâl neu wobr mewn unrhyw gerbyd heblaw cerbyd hacni trwyddedig neu gerbyd hurio preifat.

**3.** Pan fo'r drwydded yn dod i ben neu'n cael ei diddymu neu ei gwahardd, bydd y gyrrwr yn dychwelyd ei fathodyn adnabod y gyrrwr ar unwaith i Swyddog Awdurdodedig y Cyngor.

**4**. (a) bydd y gyrrwr, ar ôl y cais cychwynnol ac ar y trydydd pen-blwydd wedi hynny, neu ar yr adegau a ellir eu nodi gan y Cyngor, yn cyflwyno tystysgrif feddygol wedi'i chwblhau gan ei feddyg teulu ei hun yn datgan ei ffitrwydd i yrru a bydd y fath dystysgrif yn cynnwys adroddiad wedi'i gwblhau yn unol â hawliau Grŵp II a gynhwysir yn nogfen *Medical Aspects of Fitness to Drive* a gyhoeddir fel canllawiau i feddygon gan Gomisiwn Meddygol ar Atal Damweiniau.
(b) Bydd yn rhaid i yrrwr sydd wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 65 oed gyflwyno tystysgrif fynyddol sy'n cydymffurfio â pharagraff (a) yr amodau hyn.

**5.** Ni chaiff y gyrrwr yrru'r cerbyd hacni neu'r cerbyd hurio preifat tra'i fod yn dioddef o unrhyw waeledd neu anabledd fyddai'n gallu amharu ar ei allu i yrru neu pan fo'r gyrrwr wedi'i ardystio'n anaddas i yrru gan feddyg cofrestredig.

**6.** Bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o fewn pum diwrnod ar ôl iddo:-
(a) derbyn euogfarn am unrhyw drosedd dan ddeddfwriaeth traffig y ffordd neu unrhyw drosedd Anonestrwydd, Anweddustra neu Drais neu Gyffuriau neu unrhyw ASBO, Rhybuddion, Hysbysiad Cosb Benodedig neu dorri deddfwriaeth radio-telethrebu.
(b) bod yn ymwybodol o unrhyw waeledd neu anabledd a allai amharu ar ei allu i yrru
(c) unrhyw newid yng nghyfeiriad y gyrrwr.

**7.** (a) bydd y gyrrwr yn cyflwyno'r drwydded i'w harchwilio pan wneir cais amdani gan Swyddog Awdurdodedig y Cyngor neu gan Heddwas a bydd y gyrrwr yn rhoi'r fath gymorth a gwybodaeth fyddai'n rhesymol eu rhoi i Swyddog neu Heddwas o ran ei ddyletswyddau statudol.
(b) ar ôl derbyn ei drwydded, bydd y gyrrwr yn rhoi copi ohoni ar unwaith i unrhyw weithredwr /perchennog sy'n ei gyflogi.
(c) bydd y gyrrwr yn hysbysu'r Cyngor ar unwaith pan fo'n gadael cyflogaeth gweithredwr/perchennog a bydd yn Hysbysu'r Cyngor am unrhyw gyflogwr newydd.

**8. YMDDYGIAD GYRRWYR**

Y Gyrrwr:-

(a) bob amser yn lân ac wedi'i wisgo'n barchus ac ymddwyn yn gwrtais a chyfrifol. **Ni fydd y gwisgoedd canlynol yn dderbyniol Fest; Trowsus Byr; Top Pel-Droed; Fflip-Fflops.**

(b) byth yn bwyta nac yfed yn y cerbyd heb dderbyn caniatâd yr huriwr neu deithwyr eraill.

(c) yn cymryd pob camau rhesymol i sicrhau diogelwch y teithwyr sy'n mynd i mewn i'r cerbyd trwyddedig, yn cael eu cludo ynddo, yn dod allan ohono a bydd y gyrrwr yn helpu i lwytho a dadlwytho nifer rhesymol o fagiau.

**(O ran pobl Anabl, bydd y Mesur Cydraddoldeb, sydd ar hyn o bryd ar ei daith drwy'r Senedd, yn ymestyn gofynion Adran 36 Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd i gynnwys gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat, tra'n gweithredu gwasanaethu arferol gan ddefnyddio cerbydau y gellir cael mynediad iddynt gyda chadeiriau olwyn.)**

(d) ddim yn chwarae radio nac unrhyw offer recordio sŵn arall heb gael caniatâd yr huriwr neu unrhyw deithwyr eraill heblaw pan fydd y gyrrwr yn anfon neu yn derbyn negeseuon o ran gweithrediad y cerbyd.

(e) os bydd yn ymwybodol fod y cerbyd wedi'i hurio i fod mewn lle arbennig ar amser penodol, bydd yn cyrraedd y lle hwnnw yn brydlon oni bai ei fod wedi'i oedi neu'i rwystro gan reswm digonol.

(f) pe bo angen, yn rhoi derbynneb ysgrifenedig am y daith y talwyd amdani i'r huriwr.

(g) ddim yn gadael i beiriant y cerbyd hacni redeg tra bo'r cerbyd mewn arhosfan cerbyd hacni neu pan fo'r cerbyd yn sefyll am gyfnod hir mewn unrhyw leoliad arall.

(h) yn aros gyda'r cerbyd gydol yr amser pan yn gyrru cerbyd hacni yn ystod y cyfnodau pan fo'r cerbyd mewn arhosfan cerbyd hacni.

(i) byth yn ysmygu mewn Cerbyd Hacni/ Hurio Preifat.

(j) byth yn derbyn archeb uniongyrchol gan un o'r cyhoedd tra'n gyrru Cerbyd Hurio Preifat - **rhaid i bob archeb gael ei gwneud drwy'r Gweithredwr.**

**9. GYRRU**

Y Gyrrwr:-

**(a)** yn sicrhau bob amser bod plât y cerbyd i'w weld yn glir a bod yr holl wybodaeth sy'n ymddangos ar y plât yn ddarllenadwy.

**(b)** tra'n gyrru bydd bob amser yn gwisgo bathodyn adnabod y gyrrwr mewn lle sy'n hawdd ei weld ac yn adrodd ar unwaith wrth y Cyngor os bydd yn colli'r bathodyn ac yn derbyn bathodyn yn ei le a bydd y gyrrwr yn talu'r ffi a bennir gan y Cyngor am y bathodyn.

**(c)** bob amser yn danfon teithwyr i'r lle y maent eisiau'i gyrraedd gan ddefnyddio'r llwybr byrraf oni bai y nodir fel arall gan yr huriwr.

**(d)** yn syth ar ôl gorffen hurio cerbyd trwyddedig, neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny, bydd y gyrrwr yn chwilio'r cerbyd yn ofalus am unrhyw eiddo a ellid fod wedi'i adael ynddo, ac oni fydd yr eiddo yn cael ei hawlio gan neu ar ran y perchennog, bydd unrhyw eiddo a gafwyd hyd iddo gan y gyrrwr, neu unrhyw unigolyn arall, yn cael ei ddanfon gan y gyrrwr, cyn gynted â'i bod yn ymarferol bosib (a beth bynnag o fewn 48 awr), i Swyddfa'r Heddlu o fewn yr ardal a'i adael gyda'r swyddog ar ddyletswydd pan roddir derbynneb.

**(e)** ni fydd yn hawlio gan yr huriwr (cerbyd hurio preifat) mwy na'r hyn y cytunwyd arno rhwng yr huriwr a'r gweithredwr neu, os gosodwyd mesurydd tacsi, ffi sy'n fwy na'r hyn a ddangosir ar y mesurydd tacsi. Rhaid defnyddio'r mesurydd tacsi ar bob siwrnai a bydd y gyrrwr yn rhoi cyfle i'r huriwr archwilio'r ffi a ddangosir ar ddiwedd y siwrnai. Mae yna dri math o Doll yn y mesurydd - Toll 1 yn doll cyffredinol i'w

ddefnyddio gan bob cerbyd Hacni ar wahân i'w gynhwysedd seddau, Toll2 i'w ddefnyddio yn unig rhwng hanner nos a saith o'r gloch y bore ar unrhyw ddiwrnod heblaw am ddiwrnod Nadolig a diwrnod Calan. Toll 3 i'w ddefnyddio diwrnod Nadolig a diwrnod Calan.
Yn achos cerbyd hacni sy'n mynychu galwad wedi'i harchebu o flaen llaw, bydd y ffi yn cael ei chyfrifo o'r pwynt yn yr ardal ble y bydd yr huriwr yn cychwyn ei siwrnai, a bydd yn rhaid defnyddio'r mesurydd tacsi ac ni fydd y ffi a godir yn fwy na'r un a ddangosir ar y mesurydd.
**(f)** ddim yn defnyddio'r cerbyd hurio preifat fel tacsi mewn unrhyw le cyhoeddus nac awgrymu yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol ei fod yn gweithredu fel gyrrwr cerbyd hacni.
**(g)** yn sicrhau fod y cerbyd trwyddedig yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr addas i'r ffordd fawr bob amser gan gwblhau llyfr log cynnal a chadw'r cerbyd a gedwir yn y cerbyd ar ddechrau ac ar ddiwedd ei sifft.
Bod trwydded treth gyfredol y cerbyd yn cael ei harddangos yn briodol. Bod pwrpas y cerbyd ar gyfer hurio cyhoeddus (os mai cerbyd hacni ydyw) neu hurio preifat (os mai cerbyd hurio preifat ydyw) wedi'i gynnwys ar dystysgrif yswiriant y modur.
**(h)** yn sicrhau fod cerbyd trwyddedig a yrrir ganddo ef gydag olwyn sbâr bob amser sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol cyfredol (gan roi sylw arbennig i drwch gwadn y teiars) ac offer newid olwyn gan gynnwys jac a charn tro olwynion.

**10. TEITHWYR**

Y Gyrrwr:-
**(a)** ddim yn cario mwy o deithwyr (waeth beth fo'u hoed) na'r nifer a nodir ar y drwydded ac a ddangosir ar blât y cerbyd.
**(b)** ddim yn cario unrhyw anifail oni bai ei fod dan reolaeth yr huriwr a beth bynnag bydd y gyrrwr yn sicrhau fod anifail o'r fath (heblaw am gŵn tywys, cŵn clywed a chŵn eraill sydd wedi'i pennu'n gŵn cymorth) yn cael eu cludo yng nghefn y cerbyd.
**(c)** ddim yn cludo unrhyw unigolyn arall yn y cerbyd trwyddedig sy'n cael eu hurio heb dderbyn caniatâd yr huriwr.
**(d)** yn sicrhau fod pob teithiwr yn defnyddio gwregysau diogelwch yn y ffordd iawn. Yn achos plant dan bedair ar ddeg mlwydd oed, cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau fod gwregysau diogelwch yn cael eu gwisgo - gweler Rheoliadau Cerbydau Modur (Gwisgo Gwregysau Diogelwch) (Diwygiadau) 2006.
**11.** Ni chaiff y gyrrwr pan yn gyrru cerbyd trwyddedig wrth weithredu'r drwydded honno, ddefnyddio unrhyw offer radio sy'n medru sganio mwy nag un amledd mewn cysylltiad â busnes tacsi.
**12.** Ni chaiff y gyrrwr pan yn gyrru neu yn gofalu am gerbyd trwyddedig achosi niwsans i unrhyw breswylwyr eiddo nac i ddefnyddwyr tir.
**13.** Mae Cynllun Pwyntiau Cosb yn awr yn bodoli fydd yn cosbi unrhyw droseddu o reol; amod; deddfiad yn ymwnued a Gyrrwr neu'r Cerbyd. (Copi ynghlwm).

(12).

# Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni

# Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr

# Cyngor Gwynedd

**Cynnwys**

1.0 Cyflwyniad

2.0 Y Polisi Cyffredinol

3.0 Apeliadau

4.0 Pwerau

5.0 Ystyried datgeliadau ynghylch hanes troseddol

6.0 Trais

7.0 Troseddau Rhyw ac Anwedduster

8.0 Anonestrwydd

9.0 Cyffuriau

10.0 Troseddau Gyrru Lle Cafwyd Marwolaeth

11.0 Yfed a gyrru / gyrru dan ddylanwad cyffuriau

12.0 Collfarnau Moduro (Troseddau Traffig Difrifol)

13.0 Mân Droseddau Traffig

14.0 Cyhuddiadau neu wysion sydd heb eu hateb

15.0 Gwybodaeth am gyhuddiadau lle na chafwyd collfarn

16.0 Aildroseddu

17.0 Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwyddedu

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Diben y polisi hwn yw rhoi canllawiau ar y meini prawf a ystyrir gan y Cyngor wrth benderfynu a yw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr/gweithredwr cerbyd hurio preifat ac/neu gerbyd hacni.

1.2 Nod y polisi hwn yw diogelu'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn awyddus i sicrhau:

- Bod unigolyn yn unigolyn addas a phriodol;
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd;
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest;
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu;
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu;
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

1.3 Mae'r polisi hwn yn ceisio rhoi arweiniad i unrhyw un a chanddo ddiddordeb mewn trwyddedau hurio cyhoeddus a phreifat. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Ymgeiswyr am drwyddedau gyrru / gweithredu
- Gyrwyr / gweithredwyr sydd eisoes yn drwyddedig y mae eu trwyddedau yn cael eu hadolygu
- Swyddogion Trwyddedu a'r Heddlu
- Aelodau'r Pwyllgor/Panel Trwyddedu (neu gorff arall perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau)
- Ynadon a Llys y Goron, wrth wrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau lleol

1.4 Os bydd gan swyddogion trwyddedu bwerau dirprwyedig mewn perthynas â thrwyddedau hurio preifat/cerbyd hacni, byddant yn defnyddio'r canllawiau hyn wrth wneud penderfyniad i roi trwydded. Ym mhob achos arall, cyfeirir ceisiadau am drwyddedau i sylw'r pwyllgor/panel trwyddedu (neu gorff arall perthnasol sy'n gwneud penderfyniadau). Er y bydd swyddogion a'r pwyllgor/panel yn rhoi sylw i'r canllawiau yn y polisi, **bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol**, a lle bydd amgylchiadau'n gofyn am hynny, caiff y pwyllgor/swyddog wyro oddi wrth y canllawiau hynny.

1.5 Os na fydd ymgeiswyr yn datgelu unrhyw gollfarnau; rhybuddiadau; rhybuddion; hysbysiadau cosb, gorchmynion neu geryddon blaenorol ar eu ffurflen gais, gan gynnwys unrhyw achosion llys yn yr arfaeth neu faterion eraill, fe'u cyfeirir i sylw'r Pwyllgor Trwyddedu er mwyn gwneud penderfyniad yn eu cylch.

## 2.0. Y Polisi Cyffredinol

2.1 Gwneir penderfyniad ynghylch pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun.

2.2 Os bydd gan unigolyn gollfarn yn ei erbyn am drosedd ddifrifol, nid oes rheidrwydd i'w wahardd rhag cael trwydded. Fodd bynnag, byddai disgwyl i'r unigolyn hwnnw fel arfer:

a. Fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol (fel y nodir isod); a
b. Dangos tystiolaeth ei fod ef neu hi yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded (cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno tystiolaeth i'r perwyl hwn).

2.3 I ddibenion y Polisi hwn, gallai "materion eraill i'w hystyried" gynnwys y canlynol, ymhlith eraill:

a) Collfarnau troseddol / moduro
b) Achos Llys Milwrol;
c) Rhybuddiadau;
d) Hysbysiadau cosb benodedig neu hysbysiadau cosb eraill;
e) Gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu orchmynion eraill tebyg;
f) Torri amodau trwyddedu;
g) Rhybuddion neu Gerydd ffurfiol;
h) Cyhuddiadau neu faterion sy'n destun achos llys sydd ar ddod;
i) Addasrwydd a phriodolrwydd.

2.4 Pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

2.5 Pan fydd ymgeisydd / deilydd trwydded wedi'i gael yn euog o helpu, annog, ymgeisio, cynllwynio, cwnsela, peri, achosi, caniatáu neu ysgogi unrhyw un o'r collfarnau / materion troseddol / moduro a nodir yn y canllawiau hyn, neu fod unrhyw fater arall i'w ystyried yng nghyswllt hynny, ystyrir y gollfarn honno/y mater hwnnw'n berthnasol i'r mater dan sylw.

## 3.0. Apeliadau

3.1 Bydd gan unrhyw ymgeisydd y gwrthodwyd trwydded gyrrwr/gweithredwr iddo, neu yrrwr/weithredwr trwyddedig y mae ei drwydded wedi'i hatal neu ei dirymu, hawl i apelio i'r Llys Ynadon cyn pen 21 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad.

## 4.0. Pwerau

4.1 Mae'r pwerau i ddyfarnu trwyddedau gyrrwr / gweithredwr wedi'u cynnwys yn Adran 51, Adran 55 ac Adran 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (y Ddeddf).

4.2 Mae'r pwerau i atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr wedi'u cynnwys yn Adran 61 y Ddeddf, lle bo'r ymgeisydd/deilydd y drwydded wedi'i gael yn euog o drosedd sy'n ymwneud ag anonestrwydd, anwedduster, trais; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847; methiant i gydymffurfio â darpariaethau Rhan II yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976; neu am unrhyw achos arall rhesymol.

4.3 Mae Adran 61 (2B) yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal neu ddirymu trwydded gyrrwr ar unwaith, os yw'n ymddangos bod hynny er diogelwch y cyhoedd. Cyflwynir Hysbysiad o Benderfyniad yn egluro'r rheswm am y penderfyniad i'r gyrrwr, a bydd yn dod i rym wrth gyflwyno'r hysbysiad i'r gyrrwr. Caiff y gyrrwr apelio yn erbyn y penderfyniad hwn, ond ni chaiff yrru yn ystod cyfnod yr apêl.

4.4 Mae Adran 62 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu atal, dirymu neu wrthod adnewyddu trwydded gweithredwr os yw'r ymgeisydd/deilydd y drwydded wedi'i gael yn euog o drosedd o dan ddarpariaethau Rhan II o'r Ddeddf, neu o beidio cydymffurfio â'r darpariaethau hynny; neu ar sail unrhyw ymddygiad ar ran y gweithredwr sy'n peri i'r Cyngor ystyried ei fod yn anaddas, neu oherwydd unrhyw newid o bwys i unrhyw un o amgylchiadau'r gweithredwr ers rhoi'r drwydded, fu'n sail wrth roi'r drwydded, neu unrhyw achos arall rhesymol.

4.5 Mae Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried yr holl gollfarnau a gofnodwyd yn erbyn ymgeisydd neu ddeilydd trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, p'un a yw'r collfarnau hynny wedi darfod ai peidio. Gan hynny, bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n rhoi ystyriaeth i'r holl gollfarnau perthnasol, yn enwedig lle ceir hanes hir o droseddu neu batrwm diweddar o aildroseddu.

## 5.0. Ystyried datgeliadau ynghylch hanes troseddol

5.1 O dan ddarpariaethau Adrannau 51, 55, a 59 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod y sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr / gweithredwr, neu i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno. Fodd bynnag, os oes unrhyw faterion i'w hystyried yng nghyswllt yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried:

:

- Pa mor berthnasol yw'r drosedd/troseddau i'r drwydded y gwneir cais amdani;
- Pa mor ddifrifol oedd y drosedd/troseddau;

- Pryd y cafodd y drosedd/troseddau eu cyflawni;
- Dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn;
- Y ddedfryd a roddodd y llys;
- P'un a yw'r troseddau'n perthyn i batrwm o droseddu;
- Unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol.

## 6.0 Trais

6.1 Bydd gyrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos â'r cyhoedd yn rheolaidd. Dylid mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny a chanddynt gollfarn(au) am droseddau’n ymwneud â thrais, neu os oes mater arall/materion eraill i’w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny. Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os bydd yr ymgeisydd / deilydd y drwydded wedi'i gael yn euog o drosedd a oedd yn cynnwys marwolaeth.

6.2 Mewn achosion eraill, mae unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am **3 blynedd o leiaf.** Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

6.3 Os na cheir amgylchiadau eithriadol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am drosedd fel:

- Llofruddiaeth;
- Dynladdiad;
- Dynladdiad neu ddynladdiad beius wrth yrru;
- Troseddau terfysgaeth;
- Neu unrhyw droseddau tebyg neu droseddau sydd yn disodli'r uchod.

6.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am un o'r troseddau a restrir isod, neu os oes mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny, a bod y gollfarn/collfarnau neu'r mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 10 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Gwir niwed corfforol gyda chymhelliad hiliol/crefyddol;
- Llosgi Bwriadol;
- Ymosodiad ar yr Heddlu;
- Ymosodiad cyffredin gyda chymhelliad hiliol/crefyddol;
- Difrod troseddol gyda chymhelliad hiliol/crefyddol;
- Niwed corfforol difrifol gyda bwriad;
- Clwyfo maleisus neu niwed corfforol difrifol gyda chymhelliad hiliol;
- Bod â dryll yn ei feddiant;
- Gwrthsefyll arestio;

- Terfysg;
- Lladrata;
- Anhrefn treisgar;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

6.5 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am un o'r troseddau a restrir isod, neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny, a bod y gollfarn/collfarnau neu'r mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais:

- Affráe;
- Ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol;
- Ymosodiad cyffredin;
- Difrod troseddol;
- Rhwystro;
- Meddu ar arf (neu arf ffug) neu unrhyw drosedd arall sy'n gysylltiedig ag arf ar wahân i arf tanio;
- Trosedd o dan A5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod);
- Trosedd o dan A4 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (ofn neu fygwth trais);
- Trosedd o dan A4A Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (aflonyddwch, braw neu drallod bwriadol);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

6.6 Fel arfer bydd cais yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, o fewn y **10 mlynedd** diwethaf.

## 7.0. Troseddau rhyw ac anwedduster

7.1 Gan y bydd gyrwyr trwyddedig yn aml yn cludo teithwyr sy'n teithio ar eu pen eu hunain ac sy'n ddiamddiffyn, byddwn yn mabwysiadu agwedd lem at ymgeiswyr a chanddynt gollfarnau am droseddau rhyw, neu os oes materion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â hynny. Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu, os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd/deilydd y drwydded am y troseddau rhyw mwyaf difrifol, neu faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â hynny. Ar gyfer troseddau eraill, bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos cyfnod sylweddol heb unrhyw gollfarnau na materion i'w hystyried ar gyfer troseddau o'r fath cyn i gais gael ei gymeradwyo.

7.2 Oni cheir amgylchiadau eithriadol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, neu fater(ion) eraill i'w hystyried ar gyfer troseddau fel:

- Ymosodiad drwy dreiddio;
- Camfanteisio ar buteindra;
- Ymosodiad anweddus;
- Troseddau sy'n ymwneud â phlant neu oedolion diamddiffyn;
- Meddu ar ffotograffau anweddus, pornograffi plant ac yn y blaen;
- Treisio;
- Ymosodiad rhywiol;
- Masnachu mewn pobl i gamfanteisio'n rhywiol arnynt, neu gamfanteisio arnynt mewn rhyw ffordd arall;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am drosedd a restrir isod, neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny, a bod y gollfarn/collfarnau neu'r mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 7 mlynedd** cyn dyddiad y cais:

- Dinoethi anweddus;
- Cymell (hel puteiniaid o gerbyd);
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

7.4 Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Awdurdod Trwyddedu'n annhebygol o roi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw ar y pryd.

7.5 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan ymgeisydd fwy nag un gollfarn am drosedd rywiol neu fwy nag un mater i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny.

## 8.0 Anonestrwydd

8.1 Disgwylir i ymgeiswyr neu ddeiliaid trwydded presennol fod yn bobl y gellir ymddiried ynddynt. Maent yn ymdrin â thrafodion arian parod a gallai pobl adael eiddo gwerthfawr yn eu cerbydau. Mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded gyflwyno eiddo o'r fath i'r heddlu cyn pen 24 awr. Mae'r arfer gyffredin o ddanfon eiddo heb gludwr yn dangos yr ymddiriedaeth sydd gan bobl fusnes mewn gyrwyr trwyddedig. At hynny, mae'n gymharol rwydd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd drwy fynnu cael mwy na'r pris cyfreithiol neu'r pris a gytunwyd ar gyfer y daith, ac ati. Bydd ein harian yn aml yn achosi dryswch i ymwelwyr o wledydd tramor, a gallent hwy fod yn agored i gael eu twyllo gan yrrwr diegwyddor. Am y rhesymau hyn oll, ystyrir unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd yn fater difrifol.

8.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod, neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am un o'r troseddau a restrir isod, neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny, a bod y gollfarn/collfarnau neu'r mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried **lai na 3 blynedd** cyn dyddiad y cais:

- Twyll budd-dal;
- Bwrgleriaeth;
- Cynllwynio i dwyllo;
- Ffugio;
- Twyllo;
- Trin neu dderbyn nwyddau wedi'u dwyn;
- Cael arian neu eiddo drwy dwyll;
- Mathau eraill o dwyll;
- Mynd â cherbyd heb ganiatâd;
- Lladrata;
- Troseddau tebyg neu droseddau sy'n disodli'r uchod.

## 9.0 Cyffuriau

9.1 Ystyrir unrhyw drosedd sy'n ymwneud â chyffuriau yn fater difrifol: :

- Tyfu cyffur rheoledig;
- Mewnforio cyffur rheoledig;
- Cynhyrchu cyffur rheoledig;
- Cyflenwi cyffur rheoledig;
- Neu unrhyw droseddau tebyg.

9.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am unrhyw un o'r troseddau uchod, neu os oes unrhyw faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â hynny, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried am **5 mlynedd o leiaf**.

9.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes mwy nag un gollfarn yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am droseddau'n gysylltiedig â bod â chyffuriau mewn meddiant, neu fater i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried am **5 mlynedd o leiaf**.

9.4 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn unigol yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, am drosedd yn gysylltiedig â bod â chyffuriau mewn meddiant, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, o fewn y 3 blynedd **diwethaf**. Dylid rhoi ystyriaeth i natur y cyffuriau a'r swm dan sylw.

9.5 Os oes tystiolaeth o ddefnyddio neu gamddefnyddio cyffuriau’n barhaus, neu o ddibyniaeth arnynt, efallai y bydd yn ofynnol cael arbenigwr i gynnal archwiliad meddygol (yn unol â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA). Pe bai'r ymgeisydd yn gaeth i gyffuriau, byddai'n ofynnol iddo fel arfer ddangos tystiolaeth o **3 blynedd** yn rhydd rhag cyffuriau.

## 10.0 Troseddau gyrru lle cafwyd marwolaeth

10.1 Os bydd gan unrhyw ymgeisydd neu ddeilydd trwydded presennol gollfarn am drosedd gyrru a arweiniodd at farwolaeth, neu fod mater arall cysylltiedig i'w ystyried, ystyrir hynny'n fater difrifol iawn.

10.2 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod, neu os oes unrhyw faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â hynny, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn(au) neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried am **7 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau;
- Achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus;
- Neu unrhyw droseddau tebyg.

10.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn(au) yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am unrhyw un o'r troseddau a restrir isod, neu os oes unrhyw fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn neu fater arall i'w ystyried am **5 mlynedd.**

- Achosi marwolaeth drwy yrru'n ddiofal;
- Achosi marwolaeth drwy yrru: gyrwyr heb drwydded, wedi'u gwahardd, neu heb yswiriant.

## 11.0 Yfed a gyrru/Gyrru dan ddylanwad cyffuriau

11.1 Rhoddir ystyriaeth ddifrifol i gollfarn(au) am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau, neu fater arall/faterion eraill i'w (h)ystyried yn gysylltiedig â hynny. Mae'n bosibl na fydd collfarn unigol, neu fater arall i'w ystyried yn arwain at wrthod cais neu at atal neu ddirymu trwydded bresennol, ar yr amod bod **3 blynedd** o leiaf wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben. Ymdrinnir yn yr un modd â chollfarn am 'wrthod neu fethu darparu sampl’, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny.

**11.2 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeiswyr a chanddynt fwy nag un gollfarn am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau neu wrthod neu fethu darparu sampl, neu fater arall yn gysylltiedig**

**â hynny, onid oes cyfnod o** 10 mlynedd **wedi mynd heibio ers cael y drwydded yrru yn ôl yn dilyn y gollfarn ddiwethaf neu'r mater arall i'w ystyried.**

12.0 Collfarnau moduro

**12.1** Troseddau Traffig Difrifol

12.2 I ddibenion y Polisi hwn, dosberthir y troseddau moduro canlynol yn 'Droseddau Traffig Difrifol;:

| | |
|---|---|
| AC10 | Methu aros ar ôl damwain |
| AC20 | Methu rhoi manylion neu adrodd am ddamwain o fewn 24 awr |
| AC30 | Troseddau anniffiniedig yn gysylltiedig â damwain |
| BA10 | Gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn y Llys |
| BA30 | Ceisio gyrru yn ystod gwaharddiad dan orchymyn y Llys |
| DD40 | Gyrru'n beryglus |
| DD90 | Gyrru'n wyllt |
| IN10 | Defnyddio cerbyd sydd heb ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti |
| LC20 | Gyrru'n groes i amodau trwydded yrru |
| LC30 | Gyrru ar ôl gwneud datganiad ffug ynghylch ffitrwydd wrth wneud cais am drwydded |
| LC40 | Gyrru cerbyd ar ôl methu hysbysu am anabledd |
| LC50 | Gyrru ar ôl i drwydded gael ei dirymu neu ei gwrthod am resymau meddygol |
| MS50 | Rasio mewn cerbyd modur ar y briffordd |
| MS60 | Troseddau nad ydynt wedi'u cynnwys o dan godau eraill |
| MS90 | Methu darparu gwybodaeth am hunaniaeth y gyrrwr, ac ati. |
| UT50 | Dwysgipio cerbyd |

**12.3 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded am drosedd traffig ddifrifol, neu fod mater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, ac nad yw wedi bod yn rhydd rhag collfarn neu fater arall i'w ystyried am** 6 mis o leiaf.

**12.4 Fel arfer, gwrthodir cais gan ymgeisydd sydd wedi cyflawni mwy nag un Drosedd Traffig Ddifrifol, o fewn y 5 mlynedd diwethaf, ac ni ddylid ystyried**

**unrhyw gais pellach hyd nes bo cyfnod o** 3 blynedd o leiaf **wedi mynd heibio yn rhydd rhag collfarnau o'r fath neu faterion eraill i'w hystyried.**

**12.5 Os bydd unrhyw gollfarn neu fater arall i'w ystyried ar gyfer Trosedd Traffig Ddifrifol yn arwain at waharddiad, dylai ymgeiswyr ddarllen yr adran yn y canllawiau hyn sy'n dwyn y teitl "Gwahardd rhag gyrru".**

12.6 **Gwahardd rhag gyrru**

12.7 Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn trin cyfnod o wahardd fel cyfnod lle na fyddai'r gyrrwr wedi bod yn gymwys i gynnig gwasanaeth, ac fe gaiff ddiystyru penderfyniad llys i roi heibio neu leihau cyfnod o wahardd naill ai ar sail caledi eithriadol o dan A.35 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 neu am "resymau arbennig" o dan A.34 Deddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988.

**12.8 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, neu os oes mater arall i'w ystyried, a arweiniodd at waharddiad llai na 56 diwrnod o hyd, onid oes cyfnod o** 6 mis o leiaf **wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.**

12.9 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, neu os oes mater arall i'w ystyried, a arweiniodd at waharddiad o hyd at 12 mis onid oes cyfnod o **12 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

**12.10 Bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod neu drwydded bresennol yn cael ei hatal neu ei dirymu os oes collfarn ddiweddar yn erbyn yr ymgeisydd / deilydd y drwydded, neu os oes mater arall i'w ystyried, a arweiniodd at waharddiad o 12 mis neu fwy, onid oes cyfnod o** 18 mis o leiaf **wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.**

12.11 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu fel arfer yn caniatáu cais am drwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni gan unigolyn sydd wedi cael ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy, onid oes cyfnod o **7 mlynedd o leiaf** wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

**13.0 Mân Droseddau Traffig**

13.1 Caiff Troseddau Traffig eraill nad ydynt wedi'u rhestru yn y polisi hwn eu trin fel 'Mân Droseddau Traffig'. Mân drosedd gyrru yw trosedd sy'n derbyn rhwng 1 a 3 phwynt cosb.

**13.2 Pan fydd gan ymgeisydd / ddeilydd y drwydded un gollfarn am fân drosedd gyrru, neu fod mater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, ni fydd hyn fel arfer yn arwain at wrthod cais neu atal / ddirymu trwydded.**

**13.3 Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio i sylw'r Pwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded.**

**14.0 Cyhuddiadau neu wysion sydd heb eu hateb**

14.1 Os yw'r unigolyn yn destun cyhuddiad neu wŷs sydd heb ei hateb, gellir parhau i brosesu ei gais, ond er diogelwch y cyhoedd, rhoddir ystyriaeth i'r mater, a gallai'r penderfyniad gael ei ohirio nes bo'r achos wedi dod i ben.

**15.0 Gwybodaeth am gyhuddiadau lle na chafwyd collfarn**

15.1 Os yw'r ymgeisydd wedi cael ei arestio neu ei gyhuddo ar fwy nag un achlysur, ond heb ei gael yn euog, o drosedd ddifrifol sy'n awgrymu y gallai fod yn beryglus i'r cyhoedd, dylid ystyried gwrthod y cais neu atal/ddirymu 'r cais/drwydded.

**16.0 Aildroseddu**

**16.1 Er ei bod yn bosibl y bydd gan yr ymgeisydd sawl collfarn, neu fod materion eraill i'w hystyried, sydd yn bodloni'r canllawiau uchod ar sail unigol, bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd hanes o aildroseddu, sy'n dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo, onid oes cyfnod o** 10 mlynedd o leiaf **wedi mynd heibio ers y gollfarn neu'r materion eraill mwyaf diweddar i'w hystyried.**

.

**17.0 Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwydded**

17.1 Mae'n annhebygol y rhoddir trwydded i ymgeisydd a chanddo gollfarn, neu faterion eraill i'w hystyried yn gysylltiedig â thorri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded, onid oes cyfnod **o 12 mis o leiaf** wedi mynd heibio ers yr achos mwyaf diweddar o hynny.

17.2 Os canfyddir bod deilydd trwydded presennol wedi torri deddf, is-ddeddf neu amod trwydded am y tro cyntaf, mae'n debygol o gael rhybudd mewn ysgrifen ynglŷn â'i ymddygiad yn y dyfodol, ar yr amod na chafodd teithwyr eu rhoi mewn perygl, ac nad achoswyd unrhyw risg i'r cyhoedd.

17.3 Os canfyddir bod deilydd presennol wedi torri mwy nag un ddeddf trwyddedu, is-ddeddf neu amod trwydded, neu fod achos unigol o dramgwyddo o natur ddifrifol, gallai'r Pwyllgor Trwyddedu atal neu ddirymu'r drwydded.

17.4 Mae'r uchod yn annibynnol ar unrhyw achos cyfreithiol a allai fod ar ddod neu wedi'i gwblhau.

Y Fersiwn Derfynol: Dyddiedig Rhagfyr 2013

# CYNGOR GWYNEDD

# ADRAN RHEOLEIDDIO - GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD

# POLISI TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI/ HURIO PREIFAT

# MAE FERSIWN SAESNEG O'R POLISI HWN AR GAEL

**MABWYSIADWYD GAN Y CYNGOR - 22.10.2010**
**DECHRAU - 1.12.2010.**
**DIWEDDARWYD - 6.7.2014**
**CYWIRWYD - 25.11.2014**

**TRWYDDED CERBYD HACNI/ HURIO PREIFAT - AMODAU SAFONOL Y DRWYDDED**

**A - STATWS CYFREITHIOL**

1. Gwnaed yr Amodau hyn yn unol ag Adrannau 47 a 48, Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ac fe'u mabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd ar yr 22ain o Hydref 2010 a nodir unrhyw ddiwygiadau dilynol ble bo'n briodol yn ôl eu dyddiad.

2. Gall torri un neu fwy o'r Amodau hyn arwain at wahardd, diddymu neu wrthod adnewyddu'r drwydded, yn unol ag Adran 60 y Ddeddf hon.

**B - DEHONGLIAD**

1. Yn yr Amodau hyn, bydd y geiriau a ganlyn yn cyfeirio at yr hyn a nodir isod:-

| | | |
|---|---|---|
| "Deddf 1847" | - | Deddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 |
| "y Ddeddf" | - | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. |
| "y Cyngor" | - | Cyngor Gwynedd |
| "y drwydded" | - | trwydded a ganiateir ar gyfer cerbyd hacni wedi'i chaniatáu yn unol ag Adran 37 Deddf 1847 neu drwydded a ganiatawyd ar gyfer cerbyd hurio preifat yn unol ag Adran 48 y Ddeddf. |
| "y perchennog" | - | perchennog y cerbyd trwyddedig. |
| "cerbyd hurio preifat" | - | cerbyd y mae angen trwydded ar ei gyfer dan Adran 48 y Ddeddf. |
| "cerbyd hacni" | - | cerbyd y mae angen trwydded ar ei gyfer dan Adran 37 Deddf 1847. |
| "rhif y drwydded" | - | y rhif a gyflwynir gan y Cyngor ar gyfer trwydded a ganiateir ar gyfer cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni. |
| "cerbyd trwyddedig" | - | cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni. |
| "cerbyd arbenigol" | - | Limwsîn Hir /Injan Dân sydd â'r gallu i gario hyd at uchafswm o wyth teithiwr. |

| | | |
|---|---|---|
| "plât y cerbyd" | - | y plât a ddarperir gan y Cyngor i'w osod ar gerbyd hacni yn unol ag Adran 38 deddf 1847 ac ar gerbyd hurio preifat yn unol ag Adran 48(5) y Ddeddf. |
| "BCF" | - | *bromo-chloro-difluoro-methane.* |

2. Dehonglir bod cyfeiriad at genedl enw gwrywaidd yn gyfeiriad at genedl enw benywaidd hefyd ble bo hynny'n briodol.

3. Bydd yr holl eiriau a brawddegau eraill a ddefnyddir yn yr Amodau hyn yn golygu'r ystyr a roddir iddynt (os o gwbl) yn y Ddeddf yn Neddf 1847.

**CYFFREDINOL:**

(a) Rhaid i bob cerbyd sydd i'w drwyddedu'n Gerbyd Hurio Preifat am y tro cyntaf, fod o dan chwe blwydd oed pan mae'n cael ei drwyddedu.

(b) Rhaid i bob cerbyd sydd i'w drwyddedu'n gerbyd hacni yn Nwyfor a Meirionnydd am y tro cyntaf fod o dan chwe blwydd oed pan mae'n cael ei drwyddedu.

(c) Rhaid i bob cerbyd sydd i'w drwyddedu fel cerbyd Hacni yn Arfon am y tro cyntaf, fod o dan 3 blwydd oed pan mae'n cael ei drwyddedu; ac yn gerbyd gyda mynediad cadair olwyn o'r ochr.

(d) Yn Arfon, mae'r 98 platiau a gyflwynwyd gyntaf yn parhau â'u 'Hawliau Taid', hyd nes bydd y plat(iau) yma wedi ei ildio neu ei diddymu

(e) Fe fydd uchafswm oedran o 12 mlynedd ar y cerbydau hyn.

(f) Ar ôl deng mlynedd wedi cofrestriad cyntaf y cerbyd, bydd y cerbyd hwnnw'n destun prawf MOT blynyddol, ynghyd â Gwiriad Mecanyddol dwywaith y flwyddyn gan Gyngor Gwynedd, o hynny ymlaen.

(g) Cedwir PARTHAU Arfon, Dwyfor a Meirionnydd fel y maent ar hyn o bryd.

(h) Bydd pob cerbyd – Hacni a Hurio Preifat, yn derbyn Llyfr Log Cynnal a Chadw, gan berchnogion perthnasol y cerbyd. Bydd y llyfr hwn yn y cerbyd pob amser a bydd ar gael i'w archwilio ar gais Swyddog Awdurdodedig o'r Cyngor neu o'r Heddlu. **Bydd y Llyfr Log Cynnal a Chadw yma yn cynnwys cofnodion dyddiol o'r ymchwiliadau canlynol** – Ymchwiliad corfforol o'r peiriant; Rheiddiadur; Olew; Cyflwr corfforol; Teiars; Blwch cymorth cyntaf; Diffoddwr tan.

(i) Bydd y Drwydded Cerbyd Hacni neu Hurio Preifat yn ddilys am 12 mis o'r dyddiad y'i cyflwynir.

(j) Bydd angen i gerbydau sydd yn cludo Cadair Olwyn fod ar gallu i glampio/ cyd-nerthu'r Gadair Olwyn yn saff oddi fewn y cerbyd ac yn ychwanegiad i hyn bu i breswylydd y Gadair Olwyn gael ei gyd-nerthu'n saff gyda gwregys gyfreithlon.

(k) Mae Cynllun Pwyntiau Cosb yn awr yn bodoli fydd yn cosbi unrhyw droseddu o unrhyw reol; amod; deddfiad yn ymwneud a Pherchennog neu Gerbyd.(Copi ynghlwm).

**RHAN C - YR AMODAU**

1. Pan fo angen i berchennog drosglwyddo ei ddiddordeb mewn cerbyd trwyddedig i berson nas enwir ar y drwydded, rhaid i'r ddau barti gwblhau ffurflen drosglwyddo, ac o hynny ymlaen, ystyrir bob y drwydded wedi'i throsglwyddo i berchennog newydd y cerbyd hwnnw.

2. Ni fydd perchennog yn caniatáu i unrhyw un nad oes ganddynt Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Hurio Preifat Gyfunol gan y Cyngor, yrru cerbyd hurio preifat neu gerbyd hacni trwyddedig, oni bai am fecanic cymwys, sy'n mynd â'r cerbyd trwyddedig i brawf MOT, danfon cerbyd yn ei ôl, neu'n cyflawni prawf ffordd fel rhan o'i ddyletswyddau arferol.

3. **Wrth i'r drwydded ddod i ben, ei hildio, ei diddymu neu'i hatal (Adran 68), neu ar ôl 21 diwrnod (Amser apelio Adran 60), bydd y perchennog yn dychwelyd platiau'r cerbyd i'r Cyngor ar unwaith.**

4. Bydd y perchennog yn sicrhau bod

   (a) trwydded ecseis cerbyd presennol yn cael ei harddangos ar y cerbyd pob amser a bod

   (b) yna bolisi yswiriant cerbyd gweithredol ar y cerbyd pob amser, yn cydymffurfio â deddfwriaeth traffig ffyrdd ac yn meddu ar ardystiad i'w ddefnyddio ar gyfer hurio cyhoeddus yn achos cerbydau hacni ac ar gyfer hurio preifat yn achos cerbyd hurio preifat a bydd y trwyddedai yn cyflwyno'r un peth i swyddog cymeradwy o'r Cyngor neu'r Cwnstabl i'w archwilio ar eu cais yn ogystal â'r dogfennau cofrestru.

   (c) tystysgrif MOT ddilys yn cael ei chyflwyno i'r cerbyd

5. Bydd y perchennog yn sicrhau bod y cerbyd trwyddedig yn cydymffurfio â gofynion manylion technegol y Cyngor drwy gydol oes y drwydded, fel a ganlyn:-

   (a) bydd gan gerbyd trwyddedig bedair olwyn ffordd, a bydd y teiars o'r un maint ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol. Bydd y cerbyd, sydd wedi ei drwyddedu i gludo dim mwy nag UN teithiwr, gall gael dau ddrws, os wedi ei drwyddedu i gludo DAU NEU FWY o deithwyr bydd

rhaid cael o leiaf bedwar drws oni bai am y math o dacsi a geir yn Llundain all gael tri drws.

(b) bydd y cerbyd trwyddedig yn un gyriant llaw dde.(Ac eithrio Limwsinau Hir a all fod yn un gyriant llaw chwith).

(c) bydd cerbyd trwyddedig yn cludo dim mwy nag wyth teithiwr, yn ogystal â'r gyrrwr. Tybir y bydd pob sedd yn darparu lle i un person eistedd, waeth beth fo’u hoedran.

(d) ni fydd bysiau mini sy'n cael eu trwyddedu i gario wyth teithiwr yn cario mwy nag wyth teithiwr, ac ar gyfer y diben hwn, pan osodir seddi ar wahân, bydd pob sedd yn darparu lle i un teithiwr (waeth beth fo'u hoedran) a phan fo seddi wedi'u gosod yn barhaol bydd pob hyd o 40 cm wedi'i fesur mewn llinell syth ar flaen pob sedd yn darparu lle i un teithiwr eistedd.

(e) bydd bysus mini a osodwyd gyda mwy nag wyth sedd i deithwyr, yn tynnu’r seddi ychwanegol a gellid rhoi strwythur tebyg i gawell yng nghefn y cerbyd er mwyn cario bagiau, wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor.

(f) yn achos cerbydau “estate” neu “hatchback” ble mae’r silff barsel wedi’i thynnu allan, gosodir gril addas i atal bagiau yng nghefn y cerbyd rhag cyffwrdd y bobl sy'n eistedd yn y sedd gefn.

(g) gosodir gwregysau diogelwch yn y cerbydau trwyddedig, sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig a gofynion cyfreithiol presennol, ac yn cael eu gosod yn unol â hynny.

6. Bydd y perchennog yn sicrhau bod y cerbyd trwyddedig, pob amser, yn cario olwyn sbâr o'r un maint a'r olwynion ffordd oni bai bod y ffatri wedi gosod olwyn arbed lle. Bydd yr olwyn yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol cyfredol (gan roi sylw penodol i ddyfnder y gris). Bydd y perchennog hefyd yn sicrhau bod jac a charntro olwyn yn cael eu cario. Pan fo'r olwyn sbâr yn cael ei thynnu gan asiant LPGA cymeradwy er mwyn hwyluso gosod tanc LPG, bydd angen cario pecyn trwsio ewyn gwasgeddedig. Mewn sefyllfa o’r fath, fodd bynnag, dylid gyrru'r cerbyd ar gyflymder a phellter a nodir gan wneuthurwr y chwistrellwr ewyn, a dylid sicrhau bod teiar a phecyn ewyn newydd yn cael eu prynu'n syth ar ôl eu defnyddio. Os oes pecyn trwsio ewyn gwasgeddedig yn y cerbyd, nid oes angen cario jac nac olwyn sbâr.

7. Bydd y perchennog yn cadw'r cerbyd trwyddedig a’i holl osodiadau yn ddiogel, effeithlon, glân a thaclus ac yn caniatáu i swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu Gwnstabl ei archwilio, ac mewn achos o’r fath, bydd y perchennog yn :-

(a) yn cydymffurfio ag unrhyw rybudd a gyflwynir iddo dan Adran 68 y Ddeddf gan swyddog neu gwnstabl o’r fath, yn atal y drwydded ac yn disgwyl iddo gyflwyno’r cerbyd i gael ei archwilio neu’i brofi ar amser rhesymol ac mewn lleoliad rhesymol er diben penderfynu pa mor ffit ydyw.

(b) yn sicrhau nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio i gario teithwyr am dâl neu wobr nes y ceir cadarnhad pa un ai yw'n ffit ai peidio.

8. Yn ogystal â Gwiriad Mecanyddol Cyngor Gwynedd, sydd ei angen cyn caniatáu neu adnewyddu trwydded, neu newid cerbyd, bydd y perchennog yn cyflwyno'r cerbyd trwyddedig i gael ei archwilio a'i brofi ar un achlysur yn ystod cyfnod y drwydded, (neu ddwywaith pan fo'r cerbyd wedi cyrraedd deg oed), a bydd y Cyngor yn dewis amser a lleoliad er mwyn cadarnhau pa mor ffit yw'r cerbyd. Pe bai unrhyw gerbyd yn methu'r prawf:-

(a) bydd yn derbyn prawf arall mewn lleoliad a benderfynir gan y Cyngor o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y prawf cyntaf, neu gyfnod hwy yn unol â chytundeb y Cyngor.

(b) ni fydd yn cael ei ddefnyddio i gario teithwyr am dâl neu wobr nes y ceir cadarnhad yn yr ail brawf pa un ai yw'n ffit ai peidio.

9. Bydd plât y cerbyd yn cael ei osod ar fympar blaen a chefn pob cerbyd trwyddedig (neu ar fraced). O ran cerbydau hurio preifat, bydd sticeri ychwanegol yn cael eu gosod gyda deunydd gludiog **(nid magnetig)** i'r drysau blaen/ôl wedi ei lleoli yn union o dan y ffenestr. Lle bu Trelar yn cael ei thynnu er mwyn cludo bagiau, bu plât ychwanegol yn cael ei gosod ar ei chefn, fel y disgrifiwyd uchod. Bydd y perchennog yn sicrhau bod :-

(a) pob plât ar y cerbydau yn lân, weladwy ac yn eglur pob amser.

(b) achos o golli plât cerbyd yn cael ei adrodd i'r Cyngor yn syth a bydd modd i'r Cyngor ofyn am ffi addas i gael un newydd.

(c) plât y cerbyd a gyflwynir gan y Cyngor ar gyfer y tu mewn i'r cerbyd yn cael ei osod mewn man amlwg yn y cerbyd ac yn weladwy i deithwyr ac yn cael ei gadw'n lân ac yn eglur.

10. Ni fydd perchennog y cerbyd trwydded Hacni yn:

(a) fwriadol neu'n esgeulus yn achosi neu'n dioddef cuddio rhif trwydded o'r fath o olwg y cyhoedd pan fo'r cerbyd ar stop neu'n chwilio am fusnes.
(b) achosi, neu'n caniatáu i gerbyd fod ar stop neu chwilio am fusnes gyda sticer o'r fath sydd wedi'i ddifrodi cymaint nes bod unrhyw ffigwr neu wybodaeth benodol yn annarllenadwy.

11. Bydd gan gerbyd hacni bob amser gloc tacsi a bydd pob mesurydd yn cydymffurfio â'r gofynion a ganlyn:-

(a) bydd goriad, fflag neu ddyfais arall yn cael ei osod ar y cloc tacsi, a bydd troi hwn yn galluogi i'r cloc tacsi weithio a pheri i'r gair "HIRED" ymddangos ar wyneb y cloc tacsi.

(b) bydd modd cloi’r goriad, fflag neu’r ddyfais i'w lle er mwyn i beirianwaith y cloc tacsi roi'r gorau i weithredu, fel nad yw cost y daith yn cael ei gofnodi ar wyneb y cloc tacsi.

(c) pan fo peirianwaith y cloc tacsi yn gweithio, bydd wyneb y cloc yn dangos mewn ffigyrau eglur, cost y daith, fydd ddim yn uwch na’r prisiau y mae’r awdurdod hwn wedi'u pennu ac wedi rhoi gwybod amdanynt i’r cwmni yn ysgrifenedig.

(d) bydd y gair “FARE” yn cael ei brintio ar wyneb y cloc tacsi mewn llythrennau eglur er mwyn dangos yn eglur mai dyma gost y daith.

(e) bydd y cloc tacsi yn cael ei osod mewn lle fel bod yr holl lythrennau a ffigurau arno’n hawdd i’w gweld i unrhyw berson yn y cerbyd trwyddedig, ac felly hefyd, bydd modd goleuo’r llythrennau a’r ffigurau yn briodol pan fo’r cerbyd yn cael ei hurio.

(f) bydd y cloc tacsi ac unrhyw ddarnau ategol yn cael eu gosod yn y cerbyd trwyddedig a byddant yn cael eu selio wrth eu gosod er mwyn sicrhau na fydd modd i unrhyw un chwarae â hwy, heb dorri, difrodi neu dynnu’r sêl oddi yno’n barhaol. Bydd y cloc yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob taith. Ni fydd cost y daith yn uwch na’r hyn a ddengys ar y cloc.

(g) mae’n rhaid i’r cloc tacsi gael ei gadw mewn cyflwr gweithio boddhaol ac mae'n rhaid ei gyflwyno i gael ei archwilio mewn lleoliad penodol gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu gan Gwnstabl pe bai rhybudd yn gofyn am hynny dan Adran 68 y Ddeddf neu er mwyn cydymffurfio ag Amod 9 uchod.

12. Bydd gan gerbyd hacni arwydd ar do’r tacsi pob amser ac arno’r gair “TACSI” mewn priflythrennau o leiaf pum centimedr o uchder, ac, oni bai pan fo’r goriad, fflag neu ddyfais arall sydd wedi’u gosod yn y cloc tacsi a geiriau “FOR HIRE” i’w gweld yn glir drwy ffenestr flaen y cerbyd, bydd arwydd “FOR HIRE” goleuedig arall yn cael ei osod yn y cerbyd hacni ac yn hawdd i’w weld drwy ffenestr flaen y tacsi ac wedi’i gysylltu i'r cloc tacsi er mwyn ei ddiffodd wrth gario cwsmer pan fo’r cloc tacsi yn gweithio.

13. Bydd angen i gerbyd HACNI sy’n derbyn ei drwydded gyntaf ar ôl 1af Ionawr2011 fod yn gerbyd du gyda bonet a chefn coch. Bydd hyn yn berthnasol pan newidir cerbydau trwyddedig ar y dyddiad uchod, neu ar ei ôl.

14. Ni fydd gan gerbyd Hurio Preifat unrhyw fath o arwydd ar ei do.

15. Ni fydd unrhyw arwydd, hysbyseb, hysbysiad, dyfais na lifrai (boed wedi’i baentio ar y cerbyd, ei lynu ato neu’i gario i mewn iddo) yn cael ei arddangos ar y cerbyd trwyddedig heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Cyngor, gyda thaliad o’r ffi berthnasol, a pe rhoddir caniatâd o'r fath, bydd i'w weld yn ei gyfanrwydd o dan lefel ffenestri’r cerbyd.

16. Bydd y perchennog yn cadw unrhyw offer radio a osodir yn y cerbyd mewn cyflwr da, ond ni fydd yn gosod yr hyn a ganlyn yn y cerbyd :-

(a) unrhyw offer radio ddwyffordd (yn cynnwys Radio CB) heb hysbysu yswirwyr y cerbyd yn gyntaf a derbyn caniatâd ganddynt wedi'i nodi ar dystysgrif yswiriant y cerbyd.

(c) unrhyw offer radio sydd â'r gallu i dderbyn mwy nag un amledd.

17. Bydd y perchennog yn sicrhau bod canlynol yn cael ei gario yn y cerbyd pob amser :-

(a) diffoddydd tân carbon deuocsid/pwdr sych 1.5Kg neu fwy, sy'n rhaid ei roi yn ei le gyda chlipiau mewn lleoliad diogel er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio. Bydd yn cael ei gadw mewn cyflwr da.

(b) pecyn cymorth cyntaf sy'n cydymffurfio â "Industrial Size No. 1 Kit" fel safon ofynnol a bydd yn cael ei gadw'n drefnus i'w ddefnyddio gan y gyrrwr yn unig.

(c) bydd y ddau uchod yn cael eu marcio'n glir â Rhif Trwydded Cerbyd Cyngor Gwynedd y cerbyd sy'n cario'r offer penodol hwnnw.

18. Bydd y perchennog yn sicrhau yr arddangosir tabl o brisiau teithiau'r cerbyd fel Cerbyd Hacni yn amlwg yn y cerbyd pob amser er mwyn i unrhyw un sy'n mynd i mewn i'r cerbyd fedru ei ddarllen yn hawdd.

19. Bydd y perchennog yn rhoi gwybod, i'r Cyngor o fewn 72 awr i:-

(a) unrhyw ddamwain y bu'r cerbyd trwyddedig yn rhan ohoni.

(b) unrhyw newid yng nghyfeiriad y perchennog.

20. Pe bai damwain yn arwain at ddifrod sy'n effeithio'n faterol ar ddiogelwch, perfformiad neu ymddangosiad y cerbyd trwyddedig, bydd angen i'r perchennog gyflwyno'r cerbyd i gael ei archwilio a'i brofi yn unol ag Amod 9 uchod, a ni fydd yn defnyddio'r cerbyd i gario teithwyr am dâl neu wobr hyd nes y gwneir penderfyniad yn dilyn asesiad o ffitrwydd y cerbyd.

21. Rhaid i yrwyr cerbydau Hacni a cherbydau hurio preifat trwyddedig gario ci tywys neu gi cymorth i deithiwr yn rhad ac am ddim, oni bai y profir fod gan y gyrrwr gyflwr meddygol fyddai'n atal hyn. Mae gan yrwyr gyfrifoldeb i sicrhau bod eu cwmni yn ymwybodol o gyflwr o'r fath wrth gael eu cyflogi.

## AMODAU’N BERTHNASOL I GERBYDAU HURIO PREIFAT AMODOL

Mae’r amodau hyn, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, yn benodol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat a lywodraethir gan gontract penodol, sydd â dyddiad dechrau a dyddiad gorffen o ddim llai na saith diwrnod, a ddefnyddir yn benodol ar gyfer y contractau hynny. Bwriad yr amodau hyn yw gwarchod y cyhoedd.

**Maent yn berthnasol yn ogystal ag amodau safonol Cyngor Gwynedd.**

### CYFFREDINOL:

Nid oes raid i gerbydau Hurio Preifat Amodol fod o liw arbennig, ond mae’n rhaid iddynt gyflawni contract penodol, fel yr uchod, cyn i’r rhan hon fod yn berthnasol.

### AMODAU:

1. Ni fydd angen darparu platiau blaen/cefn allanol na sticeri ar y drysau ar gyfer Hurio Preifat Amodol, bydd gan y cerbydau blât mewnol a ‘Hurio Preifat Amodol’ arno a bydd yn cael ei arddangos yn y ffenestr flaen gyda'r geiriau uchod yn weladwy i’r cyhoedd/yr heddlu/swyddog cymeradwy o’r Cyngor.

2. Bydd y cerbyd hefyd yn arddangos rhybudd ysgrifenedig a gyflwynwyd dan Adran 75 (3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, wrth gyflawni contract penodol.

3. Mae’n rhaid i’r gyrrwr hefyd fod yn ddeilydd Trwydded Yrru Awdurdod Lleol.

********************

## AMODAU’N BERTHNASOL I LIMWSINAU HIR (CERBYDAU ARBENNIG)

Mae’r amodau hyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn benodol ar gyfer cerbydau sydd wedi'u haddasu wrth ymestyn y pellter rhwng echelydd cerbyd safonol wedi’i adeiladu mewn ffatri. Bwriad yr amodau hyn yw gwarchod diogelwch y cyhoedd. **Maent yn berthnasol yn ogystal ag amodau safonol yr Awdurdod** ac yn rhoi sylw i'r ffaith y bydd y limwsinau hir:

i) yn teithio ar gyflymder arafach na thacsis arferol ar y cyfan
ii) fel arfer ddim yn goddiweddyd cerbydau eraill
iii) yn hawdd i'r sawl sy'n eu hurio eu hadnabod
iv) yn drymach ac yn sylweddol hwy na cheir safonol
v) yn cael eu haddasu neu’i trosi gan rywun arall yn hytrach na’r gwneuthurwr gwreiddiol

## 1. CYFFREDINOL

1.1 Mae'r amodau hyn yn berthnasol i limwsinau hir a ddiffinnir ym mharagraffau 1.2 a 1.3 isod, ble mae'r cerbyd wedi'i adeiladu neu'i addasu i greu lle i hyd at wyth teithiwr, yn unig.

1.2 Mae limwsîn hir yn gerbyd o'r math salŵn ble mae ei hyd wedi'i gynyddu wrth ymestyn y pellter rhwng yr echelydd wedi iddo gael ei gynhyrchu. Dim ond cerbydau sydd wedi'u hymestyn i uchafswm o 120 modfedd y bydd Cyngor Gwynedd yn eu trwyddedu.

1.3 Mae limwsîn hir Americanaidd yn limwsîn hir wedi'i fewnforio o UDA ac fel arfer byddant wedi'u cynhyrchu'n wreiddiol gan Lincoln (Ford) neu Cadillac.

1.4 Er mwyn cyfrifo sawl teithiwr all y cerbyd ei gario, lleiafswm lled sedd teithiwr yw 400mm. O ran sedd siâp 'L', mae'n rhaid cael digon o le yn y gornel i atal y teithiwr ar un ochr i'r gornel rhag gorgyffwrdd â'r teithiwr ar yr ochr arall.

## 2. AMODAU

2.1 O ran limwsîn hir, neu limwsîn hir Americanaidd, bydd y Cyngor angen copïau gwreiddiol y dogfennau a ganlyn cyn medru ystyried y cais yn llawn:

(a) Dogfennaeth mewnforio gyflawn pan yn briodol, a thystysgrif Cymeradwyaeth Cerbyd Sengl (SVA). (Noder nad yw Tystysgrif Cymeradwyaeth Gweinidog yn dderbyniol).
(b) Dogfen Gofrestru'r DVLA (V5).
(c) Tystysgrif Yswiriant ddilys, yn cynnwys hurio a thâl.
(d) Tystysgrif MOT gyfredol wedi'i chyflwyno gan Orsaf Profi gymeradwy.
(e) Os yn briodol, tystysgrif gosod gan gwmni trosi cerbydau yn y DU wedi'i chymeradwyo gan gymdeithas nwy petroliwm hylifol (LPGA), ar gyfer cerbydau sydd wedi'u trosi i redeg ar LPG.
(f) Disg Trwydded Treth Cerbyd ddilys.

2.2 Bydd y Cerbyd yn cydymffurfio â'r hyn a ganlyn:

(a) O leiaf pedair olwyn ffordd ac olwyn sbâr maint llawn.
(b) Teiars wedi'u dylunio a'u cynhyrchu i gefnogi'r pwysau mwyaf a ganiateir ar yr echelydd pan fo'r cerbyd yn teithio ar y cyflymder uchaf. Yr ymgeisydd i gyflwyno tystiolaeth o addasrwydd y teiars, pe bai gofyn.
(c) Gwregysau diogelwch wedi'u gosod yn unol â'r Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) cyfredol.
(d) Ni chaiff uchafswm hyd y cerbyd ar ôl iddo gael ei drosi (wedi'i fesur rhwng ochr cefn y drws blaen ac ochr blaen y drws cefn) fod yn fwy na 120 modfedd.

2.3 Pan fo alcohol yn cael ei ddarparu yn y cerbyd, bydd y perchennog yn cyflwyno copi o’i drwydded alcohol i’r Awdurdod Lleol. Ni fydd caniatâd i unrhyw un, iau nag 18 mlwydd oed, sy'n teithio mewn limwsîn hir, yfed alcohol.

2.4 Bydd ffenestri tywyll yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladu a Defnyddio).

2.5 Ni fydd plant iau na 16 mlwydd oed yn cael teithio mewn limwsîn hir heb o leiaf riant neu warchodwr un o’r plant.

2.6 Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod teithwyr yn defnyddio’r gwregysau diogelwch a ddarperir pan fo’r cerbyd yn symud.

2.7 Caniateir i Limwsîn Hir:

(a) fod yn yriant llaw chwith.
(b) gael rhai seddi’n wynebu'r ochr.
(c) gael ffenestri tywyll.
(d) gael ei eithrio o arddangos Sticeri Cyngor Gwynedd ar y Drysau.
(e) rhaid cael gwregys diogelwch ar sedd pob teithiwr.

2.8 Gwaherddir y gweithgarwch a ganlyn:

(a) Stripio
(b) Dawnsio Glin
(b) Dawnsio Polyn
(d) Unrhyw weithgarwch neu berfformiad o’r math hwn.

2.9 Yn ogystal â phrawf MOT blynyddol, bydd angen i Limwsîn Hir gael Gwiriad Mecanyddol gan Gyngor Gwynedd fel a ganlyn:-

(a) hyd at bum mlwydd oed – dwywaith y flwyddyn
(b) dros bum mlynedd a hyd at ddeuddeg mlynedd – tair gwaith y flwyddyn.

## AMODAU AR GYFER INJAN DÂN
## (CERBYDAU ARBENIGOL)

---

Trwyddedir y cerbyd yn unol â'r Telerau ac Amodau Safonol ar gyfer Cerbydau Hacni/Hurio Preifat. Mae'r Amodau ychwanegol a ganlyn hefyd yn berthnasol i'r math hwn o gerbyd:

1. Bydd y cerbyd yn cael ei archwilio ac yn derbyn tystysgrif ffitrwydd (MOT neu'r hyn sy'n cyfateb ar gyfer HGV) cyn cyflwyno'r drwydded yn y lle cyntaf, ac yna bydd angen prawf pellach yn ystod y flwyddyn pan fo'r dystysgrif yn ddilys, yn ôl disgresiwn yr Awdurdod.

2. Bydd gan y gyrrwr drwydded yrru lawn yn addas ar gyfer y math hwn o gerbyd.

3. Pan fo teithwyr yn mynd i mewn i gerbyd, neu'n gadael cerbyd, bydd perchennog y cwmni neu'r criw yn rhoi cymorth corfforol i sicrhau eu diogelwch.

4. Bydd stepiau ychwanegol yn cael eu cario a'u defnyddio ar y cerbyd i hwyluso mynediad i adran teithwyr y cerbyd, ac ohono.

5. Bydd gofyn i bob teithiwr fynd i mewn i'r cerbyd ac allan ohono trwy'r drws sydd gyferbyn â'r palmant.

6. Bydd teithwyr yn cael eu cynghori wrth archebu'r cerbyd, a hefyd ar ddiwrnod y daith, na ddylent fynd i mewn i'r cerbyd, na mynd allan ohono heb gymorth y gyrrwr/criw.

7. Pan fo'r trefniadau eistedd wedi cael eu newid, dylai'r seddi hynny fod wedi'u glynu'n dynn ac yn ddiogel i lawr y cerbyd.

8. Bydd gwregysau diogelwch ar gael i bob teithiwr, sy'n cydymffurfio â Safonau Prydeinig cyfredol.

9. Bydd arwyddion priodol yn cael eu harddangos yn adran y teithwyr yn dweud y dylai pob teithiwr wisgo gwregys diogelwch.

10. Cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod plant sy'n iau na 14 mlwydd oed yn gwisgo'r gwregysau diogelwch a ddarperir pan fo'r cerbyd yn symud.

11. Bydd pob clo allanol ar y cerbyd yn cael ei osod yn ddiogel er mwyn atal teithwyr neu aelodau o'r cyhoedd rhag cael mynediad.

12. Rhaid cadw llawr y cerbyd yn glir pob amser a sicrhau nad oes unrhyw rwystrau arno.

13. Rhaid cael gwared â phob golau glas, seiren, golau fflachio, tâp adlewyrchol, ysgolion ac unrhyw lythrennau a fyddai'n rhoi'r argraff i'r cyhoedd bod y cerbyd yn injan dân, yn barhaol.

14. Ni chaiff unrhyw berson sy'n ymwneud â gweithredu'r cerbyd wisgo lifrau neu helmed all arwain aelod o'r cyhoedd i gredu bod y person yn aelod o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

15. Bydd system larwm clywadwy yn cael ei gosod yng nghefn drysau adran y teithwyr, a bydd yn gweithio pob amser y bydd y cerbyd yn cario teithwyr.

**Cynllun Pwyntiau Cosb/Penalty Points Scheme**

| | *Archwiliad*<br>Inspection | *Pwyntiau*<br>Points |
|---|---|---|
| 1 | *Dim pris na thariff i'w arddangos ar the mesurydd, ar wahân i'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor.*<br>No charge or tariff to be displayed on meter other than those approved by the Council. | **4** |
| 2 | *Y Gyrrwr ddim yn gwisgo bathodyn.*<br>Driver failing to wear badge. | **3** |
| 3 | *Methiant i arddangos platiau trwydded yn unol a gofynion y Cyngor*.<br>Failure to display licence plates as prescribed by the Council. | **6** |
| 4 | *Ymddangosiad a/neu ymddygiad y Gyrrwr.*<br>Appearance and/or conduct of Driver. | **1 - 3** |
| 5 | *Cyflwr cyffredinol y cerbyd.* *Tu mewn /* Interior<br>General condition of car. *Tu allan* / Exterior | **1 - 4**<br>**1 - 4** |
| 6 | *Swn gormodol o offer (Stereos a.y.b.)*<br>Excessive noise from equipment (Stereos etc.) | **1 – 2** |
| 7 | *Methiant a chario pecyn Cymorth Cyntaf yn y Cerbyd.*<br>Failure to have a Fist Aid Kit Carried in the vehicle. | **3** |
| 8 | *Methiant i osod offer diffodd tân yn y cerbyd.*<br>Failure to have a Fire Extinguisher fitted in vehicle. | **3** |
| 9 | *Arddangos arwyddion neu hysbysebion diawdurdod ar neu o fewn y cerbyd.*<br>Displaying unauthorised signs or advertisements in or on the vehicle. | **4** |
| 10 | *Methiant i gario copi o Dystysgrif Yswiriant yn y cerbyd.*<br>Failure to carry a copy of Certificate of Insurance in the vehicle. | **2** |
| 11 | *Methiant i arddangos Trwydded Treth cyfredol.*<br>Failure to display a current vehicle Excise Licence. | **6** |

| | | |
|---|---|---|
| 12 | *Methiant i arddangos ar ddrysau Cerbyd Hurio Preifat yr arwydd a awdurdodwyd gan y Cyngor.*<br>Failure to display on the doors of a Private Hire Vehicle the sign approved by the Council. | **3** |
| 13 | *Methiant i gynnal a chadw goleuadau gorfodol, goleuadau brecio, cyfeiryddion, teiars, corn, system ecsôst, neu unrhyw droseddau eraill yn ymwneud ag Adeiladwaith a Defnydd.*<br>Failure to maintain obligatory lights, brake lights, indicators, tyres, horn, exhaust system or any other Construction and Use offence. | **1 – 4** |
| 14 | *Methiant perchennog i hysbysu 'r Cyngor am unrhyw ddamwain ffordd neu ddifrod i Gerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat.*<br>Failure of proprietor to inform the Council of a Road Traffic Accident or damage to any Hackney Carriage or Private Hire Vehicle. | **4** |
| 15 | *Methiant Gyrrwr neu Weithredwr i hysbysu'r Cyngor am newid cyfeiriad.*<br>Failure of a Driver or Operator to notify the Council of change of address. | **2** |
| 16 | *Methiant i ddatgelu collfarnau (a roddwyd gan Lys yn y 12 mis blaenorol).*<br>Failure to disclose convictions (given by Court in previous 12 months). | **12** |
| 17 | *Methiant Gweithredwr Hurio Preifat i gadw cofnodion cywir o archebion a.y.b.*<br>Failure by Private Hire Operator to keep accurate records of bookings etc. | **6** |
| 18 | *Unrhyw dor-amod arall neu ymddygiad anfoddhaol (yn ôl doethineb y Swyddog Gorfodaeth).*<br>Any other breach of conditions or unsatisfactory behaviour (at discretion of Enforcement Officer). | **1 - 6** |